

Cefndir

Mae hwn yn un o gyfres o bapurau testun sydd wedi eu paratoi er mwyn darparu gwybodaeth fanylach ac i egluro'r modd y mae'r cynllun yn ymdrin â gwahanol bynciau a materion sy'n effeithio ar Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Bydd y papur hwn yn rhoi sylw penodol i **Datblygu'r strategaeth aneddleoedd**. Bydd yn egluro'r wybodaeth gefndirol sydd o gymorth wrth adnabod materion, amcanion ac opsiynau y ddogfen Cynllun Adnau.

Y Cynllun Adnau yw'r ail gam statudol paratoi y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd). Mae'r CDLI ar y Cyd yn siapio twf cymunedau o fewn Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i'r dyfodol, a bydd yn nodi'r polisiau a'r dynodiadau tir fydd yn sail i asesu ceisiadau cynllunio.

Bydd y Cynllun Adnau'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn penodi arolygydd annibynnol i asesu cadernid y Cynllun yn yr Archwiliad Cyhoeddus. Os bydd yr arolygydd yn ystyried bod y Cynllun yn un cadarn bydd yn argymhell ei fabwysiadu. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CDLI ar y Cyd yn disodli Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009) ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd a Chynllun Fframwaith Gwynedd (1993) a Chynllun Lleol Ynys Môn (1996) ar gyfer Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn.

Gellir darllen y papur testun hwn ar wahân neu ar y cyd â'r Papurau Testun a'r Papurau Cefndir eraill a baratowyd er mwyn rhoi darlun cyflawn o Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Hwn yw fersiwn 3 o'r papur testun ac mae'n diweddarau fersiwn 2 gafodd ei gyflwyno efo'r Cynllun Adnau. Mae'r tabl isod yn crynhoi y newidiadau sydd i'w gweld yn y fersiwn yma:

Rhan	Crynhoad o'r Newid
1. Cyflwyniad	Newid cyfeiriad i Papur testun 4B
2. Polisi Cenedlaethol a Nodweddion Lleol	Newid cyfeiriad tuag at PCC argraffiad 8.
3. Ardaloedd Cysylltedd	Cyfeirio tuag Ardal Teithio i'r Gwaith (ATG) 2011.
4. Yr Ymagwedd mewn Awdurdodau Cyfagos	Diweddarau sefyllfa Powys
6. Y Fethodoleg mewn Awdurdodau Cyfagos	Diweddarau methodoleg Powys
7. Methodoleg yn y CDLI ar y cyd – Tabl 9	Diweddarau sgôr ambell i anheddle
Atodiad 2 – Sgôr Gwasanaethau	Diweddarau sgôr ambell i anheddle

mewn Aneddleoedd	
Atodiad 4 – Cyfiawnhau'r Clystyrau	Atodiad newydd er mwyn cynnwys mwy o gyfiawnhad ar gyfer y haen Clystyrau o fewn y Cynllun.

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) / Joint Planning Policy Unit
Llawr 1af Swyddfa Cyngor Dinas Bangor / 1st Floor Bangor City Council
Offices
Bangor
LL57 1DT

01286 685003 neu 01766 771000

polisicynllunio@gwynedd.gov.uk

Cyhoeddiad: Fersiwn 3	Chwefror 2016
-----------------------	---------------

Cynnwys

	Page Number
1. Cyflwyniad	1
2. Polisi Cenedlaethol a Nodweddion Lleol	2
3. Ardaloedd Cysylltedd	7
4. Effaith Awdurdodau Cyfagos	22
5. Sefyllfa'r Cynllun Datblygu Presennol	26
6. Methodoleg Mewn Awdurdodau Cyffiniol	30
7. Methodoleg yn y CDLI ar y Cyd	33
8. Lefel Twf Disgwyliedig Aneddleoedd	43
Atodiad 1 – Gwasanaethau a Aseswyd	58
Atodiad 2 – Sgôr Gwasanaethau mewn Aneddleoedd	67
Atodiad 3 - Mapiau Ardaloedd Cysylltedd	91
Atodiad 4 – Cyfiawnhau'r Clystyrau	97

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r papur hwn yn nodi'r amcanion cenedlaethol sydd i'w hystyried o ran sefydlu hierarchaeth aneddiadau ac mae'n cymharu'r rhain â nodweddion lleol allweddol yr ardal. Yna, mae'n adolygu ardaloedd a nodir o fewn ardal y cynllyn ynghyd ag effaith/dylanwad aneddiadau mewn awdurdodau cyffiniol. Nodir yr hierarchaeth bresennol o fewn y ddau awdurdod ac ystyrir dulliau awdurdodau cyfagos ar gyfer creu methodoleg datblygu hierarchaeth aneddeoedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd). Ar ôl sgorio'r aneddiadau amlygir hefyd y cyfleoedd a'r cyfyngiadau allweddol er mwyn ystyried y raddfa a'r math o dai y dylid eu cyfeirio tuag at wahanol fathau o aneddiadau. Yn olaf, cyflwynir yr hierarchaeth aneddiadau a graddfa datblygiad o fewn yr aneddeoedd yma ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod cyfnod Adnau y Cynllun.
- 1.2 Yn Nhachwedd 2011, lluniodd y Cyngor Ddogfen Ymgysylltu Ddrafft a gylchredwyd i Randeiliaid Allweddol a'r rheiny sydd wedi mynegi diddordeb ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd). Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â datblygu'r Weledigaeth, Amcanion Allweddol ac Opsiynau Strategol. Roedd yr Opsiynau Strategol yn cyfeirio at y lefelau twf ar gyfer tai, gan gynnwys twf y sylfaen economaidd ynghyd â'r opsiynau ar gyfer dosbarthiad cyffredinol datblygiadau tai newydd. Cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar Hoff Strategaeth y Cynllun yn Mai / Mehefin 2013.
- 1.3 Yn dilyn adolygiad a dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r broses ymgysylltu, cyhoeddi rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd 2011 Llywodraeth Cymru ac adolygu ffactorau eraill sy'n effeithio ar y farchnad dai cytunodd y ddau Gyngor i'r opsiwn a ganlyn:
- Lefel Twf – Lefel twf canolig sy'n cyfateb i 479 uned y flwyddyn (7,184 uned dros gyfnod y cynllun) gafodd ei gyflwyno yn y Cynllun Adnau. Mae'r lefel yma yn cynyddu i 527 uned y flwyddyn efo lwfans llithriad o 10% (7,902 uned yn ystod cyfnod y cynllun) Mae hwn wedi'i rannu'n 3,817 o unedau ar gyfer Ynys Môn a 4,084 o unedau ar gyfer Ardal Gynllunio Gwynedd (gweler Papur Testun 4B Disgrifio'r Twf Tai a Gofodol – diweddariad (2016) am wybodaeth pellach).
 - Dosbarthiad Gofodol – Datblygiadau i'w lleoli yn aneddiadau ardal y Cynllun ar raddfa briodol yn unol â hierarchaeth aneddiadau a gytunwyd:
 - i) Gan ganolbwyntio'r datblygiadau a'r adfywio mwyaf ar y Prif Aneddiadau a'r safleoedd strategol ynddynt (55% o'r twf);
 - ii) Gan gefnogi datblygu sy'n adlewyrchu maint, swyddogaethau a chapasiti amgylcheddol a diwylliannol y rhwydwaith o wahanol Aneddiadau Allweddol a Phentrefi Allweddol (20% o'r twf);
 - iii) Gan gefnogi mân ddatblygu mewn Mân Bentrefi diffiniedig ac yng nghefn gwlad, sy'n helpu i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau ar gyfer cymunedau lleol (25% o'r twf).
- 1.4 Bydd y rôl a nodwyd ar gyfer gwahanol aneddiadau'n dylanwadu ar y lefelau twf disgwylidig terfynol o fewn canolfannau o'r fath. Fodd bynnag, lle ceir cyfyngiadau sy'n effeithio ar allu aneddiadau i gyflawni'r lefel o dwf a ragwelir yna, mewn amgylchiadau o'r fath, gellir dosbarthu rhan o'u lefel o dwf i ganolfannau eraill. Un nod i'r papur hwn yw ystyried sut y gellir dosbarthu unrhyw alw nas cyflawnwyd o fewn canolfannau eraill.

2. Polisi Cenedlaethol a Nodweddion Lleol

2.1 Mae'r bennod hon yn adolygu'r canllawiau a gynhwysir o fewn polisi cenedlaethol mewn perthynas â chreu Hierarchaeth Aneddiadau ynghyd â'r Nodweddion Lleol Allweddol sy'n dylanwadu ar rôl canolfannau yn yr ardal leol.

2.2 Polisi Cenedlaethol

2.2.1 Mae Adran 4.7 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) (Argraffiad 8, Ionawr 2016) yn cyfeirio at leoli datblygiadau newydd o fewn strategaeth aneddiadau gynaliadwy tra bod Pennod 9 yn darparu canllawiau mewn perthynas â Thai. Isod ceir yr ystyriaethau allweddol yn PCC mewn perthynas â chreu hierarchaeth aneddiadau.

2.2.2 Mae'n amlygu'r angen i'r Cynllun Datblygu adlewyrchu nodau polisi Cynllun Gofodol Cymru. Dylai'r cynllun ddiogelu patrwm cynaliadwy o aneddiadau sy'n diwallu anghenion yr economi, yr amgylchedd ac iechyd wrth barchu amrywiaethau lleol a gwarchod cymeriad a hunaniaeth ddiwylliannol cymunedau.

2.2.3 Dylid cynnal asesiad o'r graddau y mae strategaeth aneddiadau'n cyd-fynd â lleihau'r angen i deithio ynghyd â chynyddu hygyrchedd drwy ddulliau gwahanol i ddefnyddio car preifat. Dylid hyrwyddo cydbwysedd eang rhwng cyfleoedd tai a chyflogaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig i leihau'r angen i gymudo'n bell.

2.2.4 Cydnabyddir, yn y mwyafrif o ardaloedd gwledig, bod llai o gyfleoedd i leihau'r defnydd o geir ac i gynyddu'r defnydd o gludiant cyhoeddus ac i gerdded a beicio na mewn ardaloedd trefol. Fodd bynnag, mewn ardaloedd gwledig, dywedir y dylid lleoli'r mwyafrif o ddatblygiadau newydd yn yr aneddiadau hynny sy'n gymharol gyfleus i'w cyrraedd heb ddefnyddio car o gymharu â'r ardaloedd gwledig yn eu cyfanrwydd. Dylai canolfannau gwasanaeth lleol, neu glystyrau o aneddiadau llai lle gellir dangos cysylltiad cynaliadwy o ran swyddogaethau, gael eu dynodi a'u nodi fel y lleoliadau a ffeirir ar gyfer y mwyafrif o ddatblygiadau newydd gan gynnwys darpariaeth tai a chyflogaeth.

2.2.5 Gall mewnlenwi neu fân estyniadau i aneddiadau presennol yng nghefn gwlad fod yn dderbyniol, yn enwedig lle bo hyn yn diwallu angen lleol am dai fforddiadwy, ond rhaid parhau i reoli adeiladu o'r newydd mewn ardaloedd cefn gwlad agored yn llym iawn.

2.2.6 Mewn perthynas ag aneddiadau newydd, mae'n nodi eu bod yn annhebygol o fod yn briodol ar safleoedd maes glas yng Nghymru ac na ddylid ond eu cynnig wedyn lle y byddent yn cynnig manteision sylweddol o gymharu ag ehangu neu adfywio aneddiadau presennol. Dylid osgoi ehangu sylweddol sy'n cynyddu fesul cam mewn aneddiadau gwledig a threfi bach lle bo hyn yn debygol o arwain i gynnydd annerbyniol yn y galw i deithio i ganolfannau trefol a lle nad yw anghenion teithio'n debygol o gael eu gwasanaethu'n dda gan gludiant cyhoeddus.

2.3 Nodweddion Lleol

2.3.1 Mae'r adran hon yn amlygu prif nodweddion yr ardal mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â hierarchaeth aneddiadau.

2.3.2 Adlewyrchir natur wledig yr ardal yn yr adroddiad 'Trefi Bach a Threfi Marchnad yn y Gymru Wledig a'u Cefnwledydd' (Arsyllfa Wledig Cymru, Chwefror 2007, t1) sy'n cyfeirio at y Gymru wledig fel a ganlyn:

"...O Lanelli a Chwabrân yn y de i ardal drefol Llandudno-Prestatyn ar hyd arfordir Gogledd Cymru ceir ardal eang o fwy nag 1.5 miliwn hectar lle nad oes unrhyw ardal drefol â phoblogaeth o fwy nag 20,000 o bobl. Golyga hyn fod y Gymru wledig yn lle gwahanol iawn i gefn gwlad Lloegr, lle mae'r rhan fwyaf o gymunedau gwledig o fewn cyrraedd tref ganolig o leiaf, ac mae hyn yn gosod galwadau ychwanegol ar drefi'r Gymru wledig. Felly mae trefi mwy fel Aberystwyth, Bangor, Caerfyrddin a Hwlfordd yn cyflawni swyddogaeth canolfannau rhanbarthol neu isranbarthol a fyddai mewn cyd-destun arall yn cael ei chysylltu fel arfer â threfi â phoblogaeth o 50,000 neu fwy. Yn yr un modd, mae nifer fawr o aneddiadau â llai na 2,000 o drigolion yn y Gymru wledig a ystyriwyd yn hanesyddol yn drefi ac sy'n parhau i weithredu fel canolfannau gwasanaeth ar gyfer yr ardaloedd gwledig oddi amgylch..."

2.3.3 Isod ceir rhai nodweddion allweddol y mae angen eu hystyried mewn perthynas â chymeriad yr ardal wrth lunio hierarchaeth aneddiadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol sy'n datblygu. Ar wahân i'r adran ar gyflogaeth, daw'r ffigurau o Gyfrifiad 2011 ac mae ffigwr Gwynedd ar gyfer yr ardal Awdurdod Lleol gyfan:

Dwysedd

- Dengys adolygiad o Gyfrifiad 2011 mai Gwynedd yw'r trydydd awdurdod lleiaf poblog yng Nghymru gyda 0.5 o bobl yr hectar, tra bod Ynys Môn yn gydradd chweched lleiaf poblog gydag 1 unigolyn yr hectar.

Dosbarthiad

- Yn defnyddio Dosbarthiad Trefol / Gwledig 2004 ar gyfer ffigurau poblogaeth Cyfrifiad 2011, dengys yng Nghymru bod 65.9% o'r boblogaeth yn byw mewn Trefi o dros 10,000 o bobl. Dim ond 15.4% yng Ngwynedd a 16.4% ar Ynys Môn sy'n byw mewn trefi o dros 10,000 o bobl.
- O ran y categori Trefi a Chyrion Trefi mae 17.7% o boblogaeth Cymru yn byw o fewn lleoliadau o'r fath tra bo'r ffigwr ar Ynys Môn yn 31.9% a 40.6% yng Ngwynedd.
- Mewn perthynas â Phentrefi, Pentrefannau ac Anheddau ar eu Pennau eu Hunain mae 16.4% o'r boblogaeth yng Nghymru'n byw mewn lleoliadau o'r fath o gymharu â 44% yng Ngwynedd a 51.7% ar Ynys Môn.

Cyflogaeth

- Yn seiliedig ar ffigurau Cyfrifiad 2001 lleolir dros 46% o swyddi'r ardal o fewn yr 8 anheddiad mwyaf (3 ar Ynys Môn a 5 yng Ngwynedd).
- Mae'r ddau anheddiad a chanddynt boblogaeth o dros 10,000 o bobl (Bangor a Chaerdybi) yn cynnwys bron i chwarter (24.8%) swyddi'r ardal. Dengys hyn grynhoed uwch o gyfleoedd cyflogaeth o gymharu â dosbarthiad y boblogaeth.

- Gwelir rôl gyflogaeth isranbarthol Bangor yn nifer preswylwyr yr Ynys sy'n gweithio y tu allan i Ynys Môn gyda thua 7,000 o weithlu'r Ynys (23.6%) yn cymudo dros y pontydd bob dydd.
- Mae oddeutu 1,900 o weithlu Gwynedd (3.7%) yn gweithio ar Ynys Môn a 1,200 yng Nghonwy (2.3%).

Gwasanaethau / Cyfleusterau

- Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y gwahanol wasanaethau / cyfleusterau a ddarperir ledled ardal y cynllun yn ei chyfanrwydd ond yn fwy sylweddol yn yr ardaloedd gwledig.
- Oherwydd gostyngiad yn nifer y plant, ceir cynnydd yn nifer y llefydd gweigion yn y mwyafrif o ysgolion, mae hyn yn arwain i bwysau o ran cynnal y nifer o ysgolion cynradd ledled yr ardal.
- Mae astudiaeth fanwerthu yn amlygu, yn gyffredinol, y gwasanaethir yr ardal yn dda o ran nwyddau cyfleus (nwyddau pob dydd e.e. bwyd) yn enwedig siopau bwyd, fodd bynnag, ceir cryn golled tua'r Dwyrain mewn perthynas â nwyddau cymharol (nwyddau bydd defnyddwyr yn ei brynu yn anaml a fel arfer yn cymharu prisiau cyn eu prynu e.e. teledu, oergell, dillad). Mae canfyddiadau'r astudiaeth fanwerthu yn dangos, ar wahân i wariant twristiaeth, nad oes unrhyw wariant manwerthu mawr i mewn i'r ardal o'r tu allan o awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru fel Conwy a Sir Ddinbych.

Cludiant

- Ceir cryn amrywiaeth yn y dulliau teithio i'r gwaith yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011, fel y dangosir isod:
 - Trên – cyfartaledd Cymru yw 2% ond mae Ynys Môn a Gwynedd yn is ar 0.7%;
 - Bws – mae ffigwr Gwynedd o 4.5% yn agos i gyfartaledd Cymru o 4.6%, fodd bynnag, mae lefel Ynys Môn o 2.7% gryn dipyn yn is;
 - Beic – Mae'r ddwy ardal yn agos i gyfartaledd Cymru o 1.4%, gyda Gwynedd ychydig yn is gyda 1.3% ac Ynys Môn ychydig yn uwch na hynny gyda 1.6%;
 - Cerdded – Mae ffigwr Ynys Môn o 9.5% yn is na chyfartaledd Cymru o 10.6%, fodd bynnag, mae ffigwr Gwynedd sef 14.6% yn gryn dipyn yn uwch;
 - Car / Fan / Beic Modur - Wrth gyfuno gyrwyr a theithwyr mae ffigwr Gwynedd o 69.6% yn gryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru o 75.3%. Mae ffigwr Ynys Môn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar 77.6%.
 - Gweithio gartref – Mae'r ddwy ardal leol yn gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 5.4% gyda 6.8% ar Ynys Môn a 8.4% yng Ngwynedd.
- Mae'r lefel uwch o bobl sy'n gweithio o'u cartref, sy'n cerdded i'r gwaith ac sy'n defnyddio'r bws yng Ngwynedd o gymharu ag Ynys Môn yn golygu % is na chyfartaledd Cymru o bobl sy'n defnyddio cerbyd preifat i deithio i'r gwaith yng Ngwynedd.
- Mae sefyllfa Ynys Môn o ran bod â % uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn defnyddio cerbyd preifat i deithio i'r gwaith o bosib yn adlewyrchu pellteroedd cymudo mwy ynghyd â'r all-lif dyddiol o'r Ynys i'r tir mawr.
- Mae'r % o aelwydydd â char yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 77.1% yn y ddau awdurdod, 78.6% yng Ngwynedd a 82% ar Ynys Môn.

2.4 Cydbwysu Polisi Cenedlaethol ac Amgylchiadau Lleol

2.4.1 Mae'r tabl isod yn amlygu'r amcanion cenedlaethol allweddol yn erbyn amgylchiadau lleol ynghyd â'r dull a ddefnyddiwyd yn y Strategaeth Aneddiadau i fynd i'r afael â'r materion hyn:

Tabl 1 – Amcan Cenedlaethol ac Amgylchiadau Lleol

Amcan Cenedlaethol	Amgylchiadau Lleol	Y Dull a Ddefnyddiwyd yn y Strategaeth Aneddiadau
1] Creu Strategaeth Aneddiadau Gynaliadwy	Poblogaeth wasgaredig a chanddi gyfran uchel yn byw mewn Pentrefi llai, Pentrefannau ac Anheddau ar eu Pennau eu Hunain.	Nodi'r ystod o wasanaethau / cyfleusterau o fewn bob anheddiad er mwyn canfod yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy o fewn yr ardal leol.
2] Lleihau'r angen i deithio yn defnyddio car preifat (cydnabyddir yn PCC nad yw'r gallu i leihau'r defnydd o geir mor hawdd mewn ardaloedd gwledig)	<ul style="list-style-type: none"> Lefel uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o rai sy'n berchen car yn yr ardal. Ychydig iawn o gysylltiadau cludiant cyhoeddus i ganolfannau cyflogaeth o rai ardaloedd anghysbell. Llai na chyfartaledd Cymru yn defnyddio car preifat i deithio i'r gwaith yng Ngwynedd. 	Nodi'r ardaloedd hynny a chanddynt gysylltiadau cludiant cyhoeddus da yn enwedig i aneddiadau mwy a chanddynt ystod eang o wasanaethau / cyfleusterau.
3] Cydbwysedd rhwng cyfleoedd tai a chyflogaeth	Ceir crynhoed o gyfleoedd cyflogaeth mewn rhai aneddiadau allweddol. Mae tua 46% o swyddi yn yr wyth mwyaf.	Adolygu Ardaloedd Teithio i'r Gwaith (TTWA) 2001 i werthuso'r cydbwysedd tai a chyflogaeth presennol o fewn gwahanol gymunedau yn ardal y cynllun.
4] Hygyrchedd	<ul style="list-style-type: none"> Nifer gyfyngedig o aneddiadau gyda mynediad uniongyrchol i'r rhwydwaith rheilffyrdd. Gwasanaethir y rhan fwyaf o'r ardal gan rwydwaith bysiau ond dim ond gwasanaeth cyfyngedig sydd ar gael mewn rhai 	Nodi'r aneddiadau hynny a chanddynt gysylltiadau rheolaidd da i aneddiadau mwy o fewn yr ardal.

Amcan Cenedlaethol	Amgylchiadau Lleol	Y Dull a Ddefnyddiwyd yn y Strategaeth Aneddiadau
	aneddiadau.	

Goblygiadau ar gyfer yr Hierarchaeth Aneddiadau

- Yr her felly yw cydbwysu nifer y cymunedau llai presennol a chanddynt wasanaethau / cyfleusterau cyfyngedig neu ddim o gwbl sydd wedi'u gwasgaru ledled yr ardal yn erbyn y Polisi Cenedlaethol o greu mwy o gymunedau cynaliadwy a lleihau'r defnydd o'r car preifat.

2.4.2 Mae'r bennod a ganlyn yn adolygu strategaethau a chynlluniau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol sy'n nodi rolau ar gyfer rhai canolfannau ac ardaloedd cysylltedd o fewn ardal y cynllun ac awdurdodau cyffiniol.

3. Ardaloedd Cysylltedd


3.1 Mae'r adran hon yn adolygu'r cynlluniau a'r strategaethau allweddol sy'n nodi rôl rhai canolfannau a gwahanol is-ardaloedd o fewn ardal y cynllun.

3.2 Cenedlaethol – Cynllun Gofodol Cymru

3.2.1 Un o'r profion cadernid (C3) ar gyfer CDLI yw bod y cynllun sy'n datblygu yn rhoi ystyriaeth i *Gynllun Gofodol Cymru*.

3.2.2 Mae'r diagram isod yn dangos Ardaloedd Cynllun Gofodol Cymru. Mae Ynys Môn gyfan o fewn ardal Cynllun Gofodol Gogledd Orllewin Cymru tra bo Ardal Gynllunio Gwynedd yn disgyn i mewn i ddwy ardal cynllun gofodol sef ardal Cynllun Gofodol Gogledd Orllewin Cymru ac ardal Cynllun Gofodol Canol Cymru; amlygir y rhain yn y diagram isod. Nid yw'r ardaloedd cynllun gofodol yn cael eu diffinio gan ffiniau gweinyddol; yn hytrach mae'r ffiniau niwlog yn galluogi partneriaid i weithio gyda'i gilydd ar faterion cyffredin mewn modd hyblyg. Diweddarwyd y Cynllun Gofodol yn 2008 ac mae'r papur hwn yn cyd-fynd â'r fersiwn diweddaedig hwn.

Y Welediagaeth Genedlaethol




3.2.3 Mae'r diagram uchod yn nodi nodweddion allweddol gwelediagaeth Cynllun Gofodol Cymru. Ei welediagaeth gyffredinol yw cynnal cymunedau drwy fynd i'r afael â'r heriau a gyflwynir yn sgil newidiadau yn y boblogaeth a'r economi. Mae'r Cynllun yn ceisio cynorthwyo'r ardaloedd llai cyfoethog i ddal i fyny gyda lefelau ffyniant ond ar yr un pryd yn ceisio lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd. Dylai amgylcheddau naturiol ac adeiledig ynghyd â hunaniaeth gymunedol unigryw gael eu cynnal.

3.2.4 Pum thema Cynllun Gofodol Cymru yw:-

- Creu cymunedau cynaliadwy
- Hybu economi gynaliadwy
- Gwerthfawrogi ein hamgylchedd
- Sicrhau hygyrchedd cynaliadwy
- Parchu nodweddion unigryw

3.2.5 Mae'r Cynllun Gofodol yn helpu i adlewyrchu'r realiti o ran sut y mae gwahanol gymunedau'n yn edrych tuag amrywiaeth o leoedd i gael mynediad i gyflogaeth, gwasanaethau neu weithgareddau hamdden. Dylai'r strategaeth sicrhau datblygiadau cydategol yn hytrach na chystadleuol sy'n darparu sylfaen a chefnogaeth i gymunedau trefol a gwledig.

3.3 Cynllun Gofodol Cymru – Ardal Gogledd Orllewin Cymru – Eryri a Môn




3.3.1 Mae'r weledigaeth ar gyfer ardal Gogledd Orllewin Cymru yn cyfeirio at yr amgylchedd naturiol a ffisegol o ansawdd uchel sy'n cefnogi economi ddiwylliedig ac sy'n seiliedig ar wybodaeth i gynnal ei chymeriad unigryw ac i gadw a denu pobl ifanc yn ôl ac i gynnal yr iaith Gymraeg.

3.3.2 Y Prif Ffocws ('Hub') – Mae ardal cynllun gofodol Eryri a Môn Gogledd Orllewin Cymru yn nodi Canolfan Menai fel canolbwynt cryf i weithgaredd a thwf economaidd. Mae'n cynnwys Bangor, Caernarfon a Llangefni. Mae hyn yn ffurfio rhwydwaith gref o swyddogaethau ategol a chanddynt bosibiliadau o ran gyrru twf y rhanbarth yn ei flaen. Bangor yw'r ganolfan ranbarthol gydag Ysbyty Gwynedd a'r Brifysgol yn ogystal â Pharc Menai a chynnig masnachol cryf a dylai ddod i fod yn gyrchfan manwerthu fywiog ar gyfer dalgylch eang gan gynnwys Ynys Môn a Phen Llŷn. Mae Caernarfon yn ganolfan weinyddol a chyflogaeth allweddol a chanddi sector celfyddydau creadigol a thwristiaeth sy'n ffynnu. Llangefni yw prif dref farchnad a chanolfan weinyddol Ynys Môn

ac mae'n ganolfan bwysig ar gyfer cyflogaeth ym maes manwerthu a masnachol.

- 3.3.3 Ffocws Eilaidd - Cydnabyddir y ddau ganolfan eilaidd sef Caergybi a Phorthmadog-Pwllheli-Penrhyndeudraeth fel aneddiadau twf allweddol â ffocws ar ddarparu gwasanaeth a chyflogaeth ac sy'n adeiladu ar gryfderau sydd wedi'u hen sefydlu i gefnogi a lledaenu ffyniant i'r gefnwlad wledig ehangach. Yng Nghaergybi, dylid gwneud y gorau o gyfleoedd fel prif borth rhyngwladol. Mae Porthmadog a Phwllheli yn lleoliadau datblygu allweddol ar gyfer y sectorau twristiaeth a morol. Nodir hefyd bod Penrhyndeudraeth yn anheddiad trawsffiniol.
- 3.3.4 Canolfannau Pwysig - Y tu allan i'r ffocysau, nodir bod Blaenau Ffestiniog yn ganolfan bwysig sy'n berthnasol i ardaloedd Canol Cymru a Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r Cynllun Gofodol yn cydnabod ei bod yn perfformio amryw swyddogaethau mewn perthynas â thwristiaeth, cyflogaeth, gweithgareddau awyr agored, manwerthu a gwasanaethau, sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol pwysig. Mae'r cynllun hefyd yn cydnabod ei rôl gefnogol mewn perthynas â'r gefnwlad wledig ehangach. Mae Amlwch, Bethesda, Biwmares, Llanberis, Nefyn a Phenygroes wedi'u nodi fel aneddiadau allweddol. Mae Cynllun Gofodol Cymru yn cydnabod y bydd cysylltiadau ag ardaloedd cynllun gofodol eraill yn gorgyffwrdd mewn rhai rhannau o'r rhanbarth sy'n adlewyrchu'r realiti o ran sut y mae gwahanol gymunedau'n edrych tuag at amrywiaeth o leoedd i gael mynediad i gyflogaeth, gwasanaethau a gweithgareddau hamdden.
- 3.3.5 Mae'n cydnabod yr amgylchedd naturiol a'r dreftadaeth eithriadol ynghyd â hunaniaeth ddiwylliannol gref. Mae angen elwa ar yr amgylchedd a'r dreftadaeth ecolegol a hanesyddol rhagorol. Ar yr un pryd, dylid cynnal yr hunaniaeth ddiwylliannol gref a'i diogelu drwy ddatblygu cymunedau iachach sy'n seiliedig yn bennaf ar dwristiaeth gynaliadwy â gwerth uwch. Fel y mae'r Cynllun Gofodol yn nodi, bydd gwireddu posibiliadau gweithgareddau hamdden morol ac awyr agored yn bwysig.

3.4 Cynllun Gofodol Cymru – Ardal Canol Cymru



- 3.4.1 Y weledigaeth ar gyfer ardal Canol Cymru yw ar gyfer amodau byw a gweithio o ansawdd uchel mewn aneddiadau llai a leolir o fewn amgylchedd gwych ar gyfer datblygiadau cynaliadwy gwledig gan symud pob sector tuag at weithgareddau â gwerth ychwanegol uwch.
- 3.4.2 Blaenoriaeth ar gyfer ardal cynllun gofodol Canol Cymru yw adeiladu ar yr ardaloedd allweddol pwysig, wrth wella cysylltiadau a lledaenu buddion a thwf i'r gefnwlad ehangach ac i gymunedau gwledig. Mae'r cynllun wedi cydnabod yr angen i ymateb i anghenion cymunedau gwledig a chefnwledydd drwy alluogi twf priodol ac integredig a datblygu a grymuso cymunedau lleol i wella eu lefel o gynaliadwyedd. Comisiynwyd astudiaeth Strategaeth Aneddiadau Canol Cymru i ddarparu gwell dealltwriaeth o rôl a swyddogaeth aneddiadau allweddol Canol Cymru a'u chefnwledydd ynghyd â thystiolaeth bellach i ddiweddarau'r cynllun gofodol. Fel model posibl ar gyfer datblygu Canol Cymru mewn modd cynaliadwy ac i fynd i'r afael â'r ystod amrywiol o leoedd, mae Cynllun Gofodol Cymru wedi nodi aneddiadau cynradd, a chanolfannau a chlystyrau fel canolbwyntiau ar gyfer twf a buddsoddiad priodol a arweinir gan gynllun. Mae Meirionydd wledig a Chonwy wedi'u nodi fel prif glwstwr aneddiadau. O fewn y clwstwr hwn nodir Blaenau Ffestiniog a Phenrhyndeudraeth fel aneddiadau trawsffiniol tra nodir bod y Bermo a Thywyn yn aneddiadau allweddol.
- 3.5 Cenedlaethol – Ardaloedd Teithio i'r Gwaith (ATG)
- 3.5.1 Diffinnir ardaloedd teithio i'r gwaith (ATG) drwy ddadansoddi patrymau cymudo. Y maen prawf sylfaenol yw o'r boblogaeth breswyl sy'n economaidd weithgar, fod o leiaf 75% yn gweithio yn yr ardal, a hefyd, o bawb sy'n gweithio yn yr ardal mae o leiaf 75% yn byw yn yr ardal.
- 3.5.2 Diffiniwyd y 243 ATG presennol yn 2007 yn defnyddio gwybodaeth o Gyfrifiad 2001. Unwaith eto, cafwyd gostyngiad yn nifer y TTWA fel y mae'r duedd tuag at fwy o gymudo a chymudo'n bellach yn parhau, ym 1991 roedd 314 TTWA ac ym 1981 roedd 334 yn Lloegr.
- 3.5.3 Yn ardal y CDLI ar y Cyd mae'r nifer o ATG sydd naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn yr ardal wedi lleihau o 8 ym 1991 i 6 yn 2001, mae'r mapiau isod yn dangos yr ardaloedd hyn:

Map 1 - ATG Seiliedig ar data 1991



Map 2 – ATG Seiliedig ar data 2001



3.5.4 Mae'r tabl isod yn cymharu ffigyrau cyfrifiad 2001 mewn perthynas â nifer y rhai 16 i 74 sydd mewn gwaith, nifer y swyddi o fewn y ATG, nifer y bobl sy'n byw ac yn gweithio o fewn yr un ATG a'r cydbwysedd swyddi i weithlu ym mhob ATG.

Tabl 2 – Ffigyrau ATG Ynys Môn a Gwynedd

ATG	Cyfanswm y Gweithlu 16-74	Cyfanswm Swyddi 16-74	Yn byw ac yn gweithio yn yr un ATG	Cydbwysedd Swyddi i Weithlu	Sylwadau
Caergybi	8,015	7,729	6,045 (75.4%)	0.96	Mae'r ffin yn rhannu wardiau Aberffraw a Rhosneigr. I bwrpas yr ymarfer hwn mae'r ddwy ward wedi'u cynnwys o fewn ffigyrau ATG Caergybi.
Bangor, Caernarfon a Llangefni	37,043	40,366	34,659 (93.6%)	1.08	-
Pwllheli	6,944	6,318	5,625 (89%)	0.9	-
Porthmadog a Ffestiniog	6,931	6,823	5,492 (79.2%)	0.98	-
Dolgellau ac Abermaw	5,009*	5,502*	4,385 (87.5%)*	1.09	* Mae rhan o'r ATG hyn yn gorwedd y tu allan i Wynedd. Y ffigyrau a gynhwysir o fewn y tabl yw'r rheiny o fewn Gwynedd ei hun.
Machynlleth a Thywyn	2,878*	2,691*	2,471 (85.9%)*	0.93	
CYFANSYMAU	66,820	69,429	58,677 (84.5%)	1.03	-

Ffynhonnell: Tabl Llifau Teithio'r DU Cyfrifiad 2001 (ward)

3.5.5 Mae'r tabl hwn yn dangos yr amrywiaeth o fewn yr ardal o ran y gweithlu a chyfleoedd swyddi. Adlewyrchir pwysigrwydd ATG Bangor, Caernarfon a Llangefni yn y ffaith bod 55.4% o weithlu'r ardal a 58.1% o swyddi'r ardal i'w cael yn yr ardal hon. Ceir y cydbwysedd uchaf yn nhermau lle mae'r gweithlu'n byw ac yn gweithio o fewn yr un ATG ym Mangor, Caernarfon a Llangefni gyda 93.6%, a'r isaf yw Caergybi gyda 75.4%. Yn nhermau'r cydbwysedd swyddi i weithlu yr uchaf yw 1.09 yn Dolgellau ac Abermaw a ddilynir yn agos gan 1.08 ym Mangor, Caernarfon a Llangefni. Gwelir y cydbwysedd gweithlu i swyddi isaf yn ATG Pwllheli gyda 0.9.

3.5.6 Ymgwymerwyd â dadansoddiad pellach mewn perthynas â'r 8 prif ganolfan o fewn yr ardal fel y nodwyd yng Nghynllun Datblygu Unedol y ddau awdurdod.

Tabl 3 – Gwybodaeth ATG o ran Aneddiadau Mawr y CDLI

Canolfan	Cyfanswm y Gweithlu	Yn gweithio o fewn yr anheddiad	Yn gweithio o fewn y ATG	Cyfanswm Swyddi	Swyddi ar gyfer y gweithlu
Bangor	5,183	4,010 (77.4%)	5,047 (97.4%)	13,473	2.6
Caerdybi	3,752	2,225 (59.3%)	3,037 (80.9%)	3,644	0.97
Caernarfon	3,342	2,012 (60.2%)	3,158 (94.5%)	6,006	1.79
Llangefni	1,693	969 (57.2%)	1,551 (91.6%)	3,754	2.21
Blaenau Ffestiniog	1,661	1,003 (60.4%)	1,340 (80.7%)	1,495	0.9
Pwllheli	1,444	939 (65%)	1,223 (84.7%)	2,219	1.53
Porthmadog	1,323	843 (63.7%)	1,076 (81.3%)	1,974	1.49
Amlwch	833	415 (49.8%)	751 (90.2%)	917	1.1


Ffynhonnell: Tabl Llifau Teithio'r DU Cyfrifiad 2001 (ward)

- 3.5.7 Gwelir y % uchaf o weithlu sy'n byw o fewn yr un anheddiad ym Mangor gyda 77.4% gyda'r lefel uchaf wedyn ym Mhwlheli gyda 65% tra gwelir y lefel isaf yn Amlwch gyda 49.8%. Mewn perthynas â'r gweithlu o fewn y ATG perthnasol ar gyfer bob anheddiad, unwaith eto, Bangor yw'r uchaf gyda 97.4% gyda Chaernarfon yn ail gyda 94.5%, gwelir y lefel isaf ym Mlaenau Ffestiniog gyda 80.7% a Chaerdybi gyda 80.9%. O ran nifer y swyddi ar gyfer y gweithlu, gwelir y lefelau uchaf ym Mangor gyda 2.6 a ddilyniir gan Llangefni gyda 2.21, gwelir yr isaf ym Mlaenau Ffestiniog gyda 0.9 a ddilyniir gan Gaerdybi gyda 0.97.
- 3.5.8 Dengys y tabl hwn bwysigrwydd Bangor yn nhermau cyflogaeth gyda nifer y swyddi o fewn y ganolfan yn cyfateb i bron i bumed (19.4%) o'r swyddi sydd ar gael ledled yr ardal gyfan. Dengys hefyd bwysigrwydd Llangefni a Chaernarfon fel canolfannau cyflogaeth gyda 2,785 a 3,994, yn y drefn honno, yn y canolfannau hyn yn cael eu cymryd gan weithwyr o'r tu allan i'r anheddiad.
- 3.5.9 Yn Awst 2015 adolygwyd yr ATG yn defnyddio gwybodaeth o Gyfrifiad 2011. Arweiniodd hyn i leihad yn y nifer o 243 i 228 ac yn ardal y Cynllun mae hyn wedi golygu lleihad yn yr ATG o 6 i 3 ardal. Y newid o fewn ardal y Cynllun yw (i) bod ATG Caerdybi wedi cael ei gyfuno efo un Bangor, Caernarfon a Llangefni, (ii) bod ardal Pwllheli wedi ei gyfuno efo rhan o un Porthmadog a Ffestiniog, (iii) bod ardal Dolgellau a Abermaw wedi ei gyfuno efo rhan o un Machynlleth a Tywyn a rhan o un Porthmadog a Ffestiniog.
- 3.5.10 Tra nodi'r y newidiadau yma i'r ATG mae'r fethodoleg o fewn y Papur Testun yma ar gyfer adnabod ardaloedd cysylltedd a amlygir ym mhennod 8 ar sail ATG Cyfrifiad 2001 gan bod cyhoeddiad ardaloedd ar sail Cyfrifiad 2011 yn rhy hwyr i'w ymgorffori o fewn y fethodoleg yma.

3.6 Rhanbarthol – Aseiad Marchnad Dai Lleol Gogledd Orllewin Cymru (AMTLIGOC)

- 3.6.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn annog staff cynllunio a thai awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol i lunio Aseidiadau o'r Farchnad Dai Lleol. Un canlyniad i waith o'r fath yw nodi Ardaloedd Marchnad Dai a ddiffinnir fel yr ardal ddaearyddol y ceir cysylltiadau clir oddi mewn iddi rhwng lle y mae pobl yn byw ac yn gweithio. Nid yw ardaloedd o'r fath yn seiliedig ar ffiniau gweinyddol awdurdodau lleol.
- 3.6.2 Cydlynwyd gwaith ar gyfer Ynys Môn, Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Conwy a Sir Ddinbych gan Brifysgol Bangor ac arweiniodd at gyhoeddi Adroddiad Gwaelodlin AMTLIGOC yn Nhachwedd 2008.
- 3.6.3 Ar ôl llunio mapiau marchnad dai leol yn seiliedig ar wybodaeth leol roedd dadansoddi data ar lefel yr ardal teithio i'r gwaith (ATG) yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r bartneriaeth o'r AMTLI. Arweiniodd cyfuno'r ddwy ymagwedd at nodi 13 ardal marchnad dai o fewn y rhanbarth. Arweiniodd mireinio pellach at nodi 17 ardal o fewn y rhanbarth a gymeradwywyd gan y bwrdd prosiect ym Mai 2009. Mae naw o'r ardaloedd hyn naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ardal y CDLI ar y Cyd. Mae Map 3 isod yn dangos meintiau'r ardaloedd hyn.

Map 3 – Ardaloedd marchnad Tai



- 3.6.4 Cynhyrchwyd dadansoddiad ystadegol o'r ardaloedd hyn i ddangos yr amryw nodweddion sy'n bodoli o fewn y ddwy ardal awdurdod lleol unigol a ledled y

rhanbarth. Mae'r tabl isod yn amlygu prif nodweddion y gwahanol ardaloedd marchnad yma:

Tabl 4 – Prif Nodweddion Ardal Marchnad Tai

AMTLI	Prif Nodweddion
01 Gogledd Ynys Môn	<ul style="list-style-type: none"> • Cadarnle Siaradwyr Cymraeg (63% Siaradwyr Cymraeg (SC); • Lefel uchel o ddiweithdra; • Lefel uchaf o anactifedd economaidd yng Ngogledd Orllewin Cymru (GGC) (43% o bawb rhwng 16-74 mlwydd oed); • Ardal Amaethyddol (7% yn gyflogedig yn y sector yma o'i gymharu hefo 2.5% yng Nghymru gyfan); • Cyfartaledd maint aelwydydd o 2.42 – uchaf yn GGC; • Dros un o bob pump aelwyd heb system gwres canolog.
02 Caergybi	<ul style="list-style-type: none"> • Proffil oed ieungach na GGC yn ei gyfanrwydd – tebyg i broffil Cymru; • Lefel uchel o ddiweithdra; • Gweithgynhyrchu yn darparu 17% o gyflogaeth – canran uchaf yn GGC; • Un o bob pump aelwyd heb system gwres canolog; • Dros chwarter o aelwydydd heb fynediad i gar; • Aelwydydd un rhiant yn ffurfio 8% o'r holl aelwydydd.
03 Menai	<ul style="list-style-type: none"> • Proffil oed ieungach na GGC yn ei gyfanrwydd – tebyg i broffil Cymru; • Cadarnle Siaradwyr Cymraeg (62% SC); • Bron iawn chwarter o'r boblogaeth yn grwp dosbarthiad cymdeithasol AB (rheolwyr a proffesiynol); • 4,500 o fyfyrwyr llawn amser sydd yn 18 mlwydd oed a trosodd yn byw yn yr ardal; • 3.5% o'r boblogaeth – yn bennaf myfyrwyr – yn byw mewn sefydliadau cymunedol.
04 Caernarfon	<ul style="list-style-type: none"> • Proffil oedran ieuengaf yn GGC; • Cadarnle Siaradwyr Cymraeg (82% SC); • Lefel uchel o ddiweithdra; • Lefel uchaf o dai rhent cyhoeddus yn GGC (23%); • Dros un o bob pump aelwyd heb system gwres canolog; • Dros chwarter o aelwydydd heb fynediad i gar; • Aelwydydd un rhiant yn ffurfio 7.5% o'r holl aelwydydd.
05 Llyn	<ul style="list-style-type: none"> • Bron iawn chwarter o'r boblogaeth dros 65 mlwydd oed; • Cadarnle Siaradwyr Cymraeg (74% SC); • Ardal amaethyddol (8% yn gyflogedig yn y sector yma o'i gymharu hefo 2.5% yng Nghymru gyfan); • Un rhan o bump o'r boblogaeth sydd yn 16-74 mlwydd oed yn gweithio o'u cartref; • Dros 14% o'r tai yn dai gwyliau neu ail gartrefi; • Lefel uchaf o dai rhent sector breifat yn GGC - dros 17%; • Lefel uchaf o dai heb system gwres canolog yn GGC – 27%.
06 Porthmadog	<ul style="list-style-type: none"> • Cadarnle Siaradwyr Cymraeg (74% SC); • Bron iawn i 30% o gyflogaeth yn y sector twristiaeth;

AMTLI	Prif Nodweddion
	<ul style="list-style-type: none"> • 8% o dai wedi ei hadnabod fel tai haf neu ail gartrefi; • 7.5% o dai wedi ei hadnabod fel rhai gwag; • Dros un o bob pump aelwyd heb system gwres canolog.
07 Arfordir De Gwynedd	<ul style="list-style-type: none"> • Dros chwarter o'r boblogaeth dros 65 mlwydd oed; • Ardal amaethyddol (7% yn gyflogedig yn y sector yma o'i gymharu hefo 2.5% yng Nghymru gyfan); • Un rhan o bump o'r boblogaeth sydd yn 16-74 mlwydd oed yn gweithio o'u cartref; • 11% o'r tai wedi ei hadnabod fel tai haf neu ail gartrefi; • Ar y cyd hefo Llandudno, yr ardal sydd â'r maint aelwydydd isaf yn GGC, sef 2.17 person; • Bron un o bob pump aelwyd yn rhai pensiynwr sengl; • Dros un o bob pump o aelwyd heb system gwres canolog.
08 Machynlleth (part)	<ul style="list-style-type: none"> • Bron I chwarter o'r boblogaeth dros 65 mlwydd oed; • Ardal amaethyddol (7% yn gyflogedig yn y sector yma o'i gymharu hefo 2.5% yng Nghymru gyfan); • Bron iawn i 30% o gyflogaeth yn y sector twristiaeth; • Bron iawn i chwarter o'r boblogaeth rhwng 16-74 mlwydd oed yn gweithio o adref; • 35% o dai wedi eu hadnabod fel tai haf neu ail gartrefi – canran uchaf yn GGC; • Bron iawn i chwarter o aelwydydd heb system gwres canolog.
09 Bala	<ul style="list-style-type: none"> • Cadarnle Siaradwyr Cymraeg (73% SC); • Ardal amaethyddol (11% yn gyflogedig yn y sector yma o'i gymharu hefo 2.5% yng Nghymru gyfan); • Un rhan o bump o'r boblogaeth sydd rhwng 16-74 mlwydd oed yn gweithio o adref; • 7% o dai wedi eu hadnabod fel tai haf neu ail gartrefi; • Lefel uchel o berchnogaeth ceir (80% o'r holl aelwydydd).

3.6.5 Ceir tebygrwydd o fewn rhai rhannau o ardal y cynllun rhwng eu hardal marchnad dai a ffiniau TTWA e.e. Pwllheli, Porthmadog a Ffestiniog, tra bo ardaloedd eraill yn gyffredinol yn llai, ar wahân i TTWA Caergybi y mae ei hardal marchnad dai ychydig yn fwy.

3.7 Lleol – Dalgylchoedd Ysgol

3.7.1 Mae pob awdurdod lleol ledled Cymru yn adolygu eu hysgolion fel rhan o ymrwymiad i foderneiddio addysg a sicrhau bod ei hysgolion yn darparu'r amgylchedd dysgu a'r cyfleusterau gorau bosib yn unol â rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.

3.7.2 Ar hyn o bryd ceir:
Tabl 5 – Darpariaeth Ysgolion

Gwynedd	<ul style="list-style-type: none"> • 97 o ysgolion cynradd • 14 o ysgolion uwchradd • 2 ysgol anghenion arbennig
---------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------


Ynys Môn	<ul style="list-style-type: none"> • 47 o ysgolion cynradd • 5 ysgol uwchradd • 1 ysgol anghenion arbennig
----------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

3.7.3 Mae llefydd gweigion yn fater o bryder i'r ddau awdurdod. Yn y sector cynradd roedd yn 16.7% ar Ynys Môn a 22.8% yng Ngwynedd ym Ionawr 2014. Yn y sector Uwchradd roedd yn 23.4% ar Ynys Môn a 31.5% yng Ngwynedd ym Ionawr 2014. Fe ddylid nodi fod y lefle o lefydd gweigion mewn ysgolion gynradd wedi lleihau o 21.4% yn Ynys Môn a 25.9% yng Ngwynedd yn Medi 2012.


3.7.4 Mae'r ddau Awdurdod Addysg Lleol yn darparu cludiant ysgol am ddim ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd sy'n byw 3 milltir neu ragor o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch. Mae hyn felly'n darparu dull cludiant cynaliadwy o fewn yr ardal ynghyd â llai o ddefnydd o geir preifat. Fodd bynnag, ceir nifer o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion y tu allan i'w dalgylchoedd.

3.7.5 Mae'r mapiau isod yn amlygu dalgylchoedd yr Ysgolion Uwchradd o fewn y ddau awdurdod a dengys hefyd ganran y disgyblion sy'n mynychu bob ysgol o'r tu allan i'r dalgylch.

Map 4 – Dalgylchoedd Ysgolion Uwchradd Ynys Môn (Medi 2012)



Map 5 – Dalgylchoedd Ysgolion Uwchradd Gwynedd (Medi 2012)



[Noder: Mae rhan o ddalgyrch Ysgol Y Berwyn yn disgyn y tu allan i Wynedd felly mae'r ffigwr o 27% yn dangos yn nifer o ddisgyblion o du allan i Wynedd a dim o reidwydd y tu allan i ddalgyrch yr ysgol]

3.7.6 Fel y gellir gweld, ceir cryn amrywiaeth rhwng yr ysgolion uwchradd yn yr ardal o ran % y disgyblion o'r tu allan i ddalgyrch ysgolion. Y tri uchaf yw Friars, Bangor gyda 42.5%, a ddilynir gan Y Gader, Dolgellau 37.7% a Thryfan, Bangor 24.3%, tra'r tri a chanddynt y lefelau isaf yw Bodedern 2.4%, Syr Thomas Jones, Amlwch 2.7% a'r Moelwyn, Blaenau Ffestiniog 2.9%.

3.8 Lleol – Y Rhwydwaith Cludiant

3.8.1 Isod, ceir crynodeb o'r sefyllfa yn y ddau awdurdod:


Gwynedd - Ceir 6 cefnffordd a 11 o ffordd 'A' Sirol yng Ngwynedd gyfan sy'n dod i gyfanswm o 531 cilometr. Yn nhermau cludiant cyhoeddus, ceir 3 cyswllt rheilffordd i gymudwyr: Prif Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru, rheilffordd Dyffryn Conwy a rheilffordd Arfordir y Cambria. Defnyddir yr 8 rheilffordd ysgafn breifat yn y sir gan ymwelwyr yn bennaf. Gwasanaethir yr ardal gan rwydwaith o wasanaethau bus confensiynol sy'n cysylltu'r prif aneddiadau â'r pentrefi pellennig ynghyd â gwasanaethau penodedig mewn trefi sy'n gweithredu o fewn y mwyaf o drefi yn yr ardal. Mae yna nifer o lwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio yn yr ardal, fodd bynnag, mae'r mwyaf o rhain yn cael ei defnyddio ar gyfer pwrpas hamdden. Mae dau lwybr beicio cenedlaethol yn mynd trwy Gwynedd sef rhif 5 o Ynys Môn sydd yn mynd ar hyd arfordir Gogledd Cymru a rhif 8 'Lôn Las Cymru' o Ynys Môn sydd yn mynd trwy Porthmadog ac yn darford yn Caerdydd.

Ynys Môn – Yr A55 yw'r unig gefnffordd gyda 9 ffordd 'A' Sirol ar yr Ynys gyfan sy'n dod i gyfanswm o 185.2 cilometr. Mae Prif Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru yn cysylltu Caerdybi a Bangor. Gwasanaethir yr ardal gan rwydwaith o wasanaethau bus confensiynol sy'n cysylltu'r prif aneddiadau gyda'r pentrefi pellennig ynghyd â gwasanaethau penodedig mewn trefi sy'n gweithredu o fewn y rhan fwyaf o'r ardal. Mae maes awyr Ynys Môn yn


cynnig gwasanaeth dwy waith y dydd (Llun i Gwener) rhwng Ynys Môn a Caerdydd. Mae yna nifer o lwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio yn yr ardal, fodd bynnag, mae'r mwyafrif o rhain yn cael ei defnyddio ar gyfer pwrpas hamdden. Mae dau lwybr beicio cenedlathol yn mynd trwy Ynys Môn sef rhif 5 sydd yn mynd i Bangor a wedyn ar hyd arfordir Gogledd Cymru a rhif 8 'Lôn Las Cymru' o Ynys Môn sydd yn mynd trwy Porthmadog ac yn darfod yn Caerdydd.

- 3.8.2 Mae'r mapiau isod yn dangos y prif lwybrau cludiant o fewn yr ardal ynghyd â'r llwybrau bysiau o fewn yr ardal.

Map 6 Prif Lwybrau Cludiant



Map 7 – Llwybrau Bysiau




Goblygiadau ar gyfer yr Hierarchaeth Aneddiadau

- Nodir rôl bresennol rhai canolfannau yng Nghynllun Gofodol Cymru.
- Yn gyffredinol, mae TTWA yn cynyddu o ran maint sy'n adlewyrchu bod pobl yn teithio'n bellach i'w gwaith.
- Lleolir dros hanner y swyddi yn yr ardal o fewn 8 o'r aneddiadau mwy.
- Mae canolfannau a chanddynt gymhareb swyddi i weithlu uchel yn dal i fod yn colli cryn nifer o bobl i swyddi y tu allan i'r anheddiad.
- Mae gan hyd yn oed Bangor, sef yr anheddiad mwyaf hunangynhaliol, fwy na phumed o'i weithlu yn gweithio y tu allan i'r ddinas.
- Mae Ardaloedd Marchnad Dai yn gweithredu ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol ond mae ganddynt berthynas gyffredinol â TTWA.
- Dengys dalgylchoedd ysgolion uwchradd gysylltiadau pwysig o fewn yr ardal, fodd bynnag, rhaid ystyried lefelau uchel o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion y tu allan i'w dalgylch.
- Nifer cyfyng o aneddeoedd efo mynediad uniongyrchol i'r prif wasanaeth rheilffordd. Rhwydwaith bysiau eang ond gwahaniaeth yn y amllder o wasanaeth a welir trwy'r rhwydwaith.

4. Yr Ymagwedd mewn Awdurdodau Cyfagos

- 4.1 Cysylltir siroedd Ynys Môn a Gwynedd gan bontydd ffyrdd a rheilffyrdd. Porthladd Caergybi yw'r prif gyswllt fferi rhwng Iwerddon a Phrydain ac felly mae'n darparu cyswllt rhwng yr ardal ac Iwerddon. Mae dros hanner (63%) arwynebedd Gwynedd yn disgyn o fewn Parc Cenedlaethol Eryri ac felly mae'n gorwedd y tu allan i ardal y CDLI ar y Cyd. Golyga hyn mai'r Parc yw'r awdurdod cynllunio cyfagos a chanddo'r ffin fwyaf a'r berthynas agosaf yn nhermau rhannu gwasanaethau a chyfleusterau rhwng aneddiadau yn yr ardal leol. I'r dwyrain ceir Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r ffin rhwng y cyfan o Wynedd a Chonwy yn tua 90km, fodd bynnag, dim ond tua 30km sy'n ffinio efo ardal gynllunio Gwynedd. Yn yr un modd, mae'r ffin gyfan â Sir Ddinbych yn tua 20km ond ddim ond 15km ar gyfer ardal gynllunio Gwynedd. I'r de ceir Powys a Cheredigion, mae gan Bowys ffin o tua 65km ond ddim ond 6km gydag ardal gynllunio Gwynedd. Mae'r cyfan o'r ffin gyda Cheredigion yn tua 12km ac mae hyn i gyd gyda'r Parc Cenedlaethol a hefyd gan fod yr Afon Dyfi yn rhedeg ar hyd y ffin mae'n golygu nad oes cyswllt cludiant uniongyrchol ar dir rhwng Gwynedd a Cheredigion.

Map 8 – Cysylltiadau gyda Awdurdodau Cyfagos



- 4.2 Mae rhai Aneddiadau Allweddol sy'n cyffinio â neu sy'n effeithio ardal y CDLI ar y Cyd wedi cael eu nodi yng Nghynllun Gofodol Cymru (CGC). Crynhoir y rhain yn y tabl isod:

Tabl 6 – Rôl Canolfannau sy'n Effeithio Ardal y CDLI ar y Cyd yn CGC

Awdurdod Lleol	Aneddiadau Allweddol
Parc Cenedlaethol Eryri	<ul style="list-style-type: none"> Dolgellau - nodwyd ei fod wedi lleoli'n strategol fel "prif anheddiad allweddol", wedi'i lleoli'n strategol ar gyfer datblygu priodol' yn gwasanaethu'r cymunedau o'i amgylch ac yn darparu cyswllt rhwng ardal Canol Cymru ac ardal Gogledd Orllewin Cymru. Nodir bod y Bala, Betws y Coed and Thrawsfynydd yn aneddiadau trawsffiniol tra nodwyd bod Harlech ac Aberdyfi yn aneddiadau allweddol.
Conwy	<ul style="list-style-type: none"> Nodwyd bod Llandudno a Chonwy yn brif ffocws a gydnabuwyd i fod yn yrrwr economaidd allweddol sy'n cysylltu Gogledd Orllewin Cymru a Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae Llandudno a Chonwy yn darparu swyddogaethau manwerthu, gweinyddol a gwasanaeth ar gyfer cefnwlad wledig dyffryn Conwy.
Sir Ddinbych	<ul style="list-style-type: none"> Nodir bod Corwen yn anheddiad allweddol.
Powys	<ul style="list-style-type: none"> Nodir bod Machynlleth yn anheddiad allweddol gyda sylw i dwristiaeth.
Ceredigion	<ul style="list-style-type: none"> Aberystwyth - nodwyd ei fod yn anheddiad allweddol o bwys cenedlaethol sy'n gyson a'i rôl fel canolfan strategol ar gyfer Canolbarth Cymru a'i arwyddocâd cenedlaethol i Gymru, sy'n ffurfio clwstwr ag Aberaeron. Oherwydd cysylltiadau tir rhwng De Gwynedd a Cheredigion (nad yw ond yn hygyrch drwy Bowys) mae dylanwad Aberystwyth ar ardal y CDLI ar y Cyd rhywfaint yn llai.

- 4.3 Isod, ceir adolygiad o'r Cynlluniau Datblygu Lleol sy'n datblygu neu a fabwysiadwyd gan bob awdurdod cyffiniol mewn perthynas â'r rôl ar gyfer yr aneddiadau hynny, fel y nodwyd uchod, sy'n effeithio ar ardal y CDLI ar y Cyd:

Parc Cenedlaethol Eryri (PCE) - Wrth nodi 8 parth dylanwad sydd o fewn neu y mae rhan ohonynt yn y Parc Cenedlaethol, mae wedi cydnabod dylanwadau canolfannau allweddol y tu allan i'r Parc. Mewn perthynas ag ardal y CDLI ar y Cyd cydnabyddir dylanwad Bangor, Porthmadog, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Abermaw a Thywyn. Y mae hefyd yn nodi'r rôl a chwaraeir gan Ganolfannau Gwasanaeth Lleol Dolgellau a'r Bala mewn perthynas â'u cefnwlad ehangach sy'n cynnwys rhan o'r CDLI ar y Cyd. Mabwysiadwyd y CDLI ar 13 Gorffennaf 2011.

Ceir cyfeiriad tuag at Gorsaf Bwer Niwcliar Trawsfynydd a wnaeth ddarod cynhyrchu trydan yn 1993 a sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddatgomiynu. Mae datgomiynu'r safle wedi parhau i gynnig gwaith i oddeutu gweithlu o 500 a bydd hyn yn bodoli tan 2016 gan ostwng wedi hyn.

Mae yn adnabod 6 anedde sydd yn rhannol yn y Parc ac yn rhannol yn ardal cynllunio Gwynedd sef Llanberis, Nantlle, Garndolbenmaen, Garreg-Llanfrothen, Penmorfa a Llanllechid. Cafwyd trofodaethau i sicrhau cysondeb rhwng y Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd a Cynllun Datblygu Lleol y Parc. Mae'r papur cefndir Strategaeth Datblygu Gofodol a'r CDLI y Parc yn amlinellu sut mae'r Parc yn ymdrin ar aneddleoedd yma. Mae'r linc yma i papur cefndir y Parc: http://www.eryri-npa.gov.uk/data/assets/pdf_file/0011/37469/strategaeth_datblygu_gofodol_22-06-10.pdf

Conwy - Mae'r Cynllun yn canolbwyntio'r rhan fwyaf o ddatblygu i'r dyfodol yng ffocws strategol Conwy, Llandudno, Cyffordd Llandudno a Bae Colwyn a'r aneddiadau trefol amgylchynol. Mae'n datgan fod rôl Llandudno fel y ganolfan siopa isranbarthol yn denu nifer fawr o siopwyr o'r Fwrdeistref Sirol ac awdurdodau cyfagos eraill. Gellir gweld y rôl hon gyda cholli 27% o'r gwariant ar nwyddau cymharol o ardal y CDLI ar y Cyd i Landudno. Nodi'r cysylltiadau ag aneddiadau PCE y mae rhan ohonynt ar y naill ochr i'r ffin i sicrhau cysondeb rhwng cynlluniau'r ddau awdurdod. Mae topograffi a graddau ardal PCE yn golygu nad oes cysylltiadau penodol ag aneddiadau ardal y CDLI ar y Cyd a nodir yn CDLI Conwy sy'n datblygu. Cafodd CDLI Conwy ei fabwysiadu yn Hydref 2013.

Sir Ddinbych – Strategaeth ofodol y Cynllun Datblygu Lleol yw canolbwyntio datblygu mewn nifer fach o safleoedd mawr yng ngogledd y Sir, gyda datblygiadau newydd ar raddfa lai yn cael eu cefnogi mewn aneddiadau eraill yn y sir. Y weledigaeth ar gyfer Corwen yw y bydd wedi cael ei gryfhau drwy ddatblygu tai marchnad a fforddiadwy newydd ynghyd â safleoedd cyflogaeth i ddiwallu anghenion lleol. O ran darpariaeth manwerthu o fewn y Sir, fe'i lleolir yn bennaf o fewn 8 tref, Rhyl, Prestatyn, Rhuddlan, Llanelwy, Dinbych, Rhuthun, Corwen a Llangollen. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio atgyfnerthu'r canolfannau trefi hyn fel y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd gyda Chorwen yn cael ei nodi fel Canolfan Ardal yn nhermau darpariaeth manwerthu. Cafodd CDLI Dinbych ei fabwysiadu yn Mehefin 2013.

Powys - O ran twf, datblygiadau tai neu ddatblygiadau preswyl fydd y gydran twf fwyaf yn ystod cyfnod y CDLI. Nid yw ymchwil i anghenion economaidd yn rhagweld galw uchel am dir cyflogaeth i gefnogi buddsoddiad busnes newydd dros gyfnod y cynllun, er ei bod yn rhagweld yr angen am bolisiâu hyblyg i alluogi estyn busnesau sy'n bodoli neu eu galluogi i symud i safleoedd modern sy'n ynni effeithiol. Adlewyrchir y sefyllfa hon hefyd yn y newidiadau demograffig a ragamcenir, gan ei bod yn debygol y bydd gan Bowys strwythur poblogaeth hyn gyda mwy o bobl wedi ymddeol erbyn 2026. O'r herwydd, mae'r strategaeth ofodol ar gyfer y CDLI yn canolbwyntio'n bennaf ar lle y dylid lleoli gwaith datblygu tai. Mae strategaeth ofodol y CDLI wedi'i seilio ar **hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy** gyda lefelau'r gwaith datblygu sydd wedi'i neilltuo ar gyfer aneddiadau'n gymesur â'u maint (nifer yr aelwydydd) a'u safle yn yr hierarchaeth. Nodir Machynlleth fel Tref ystyrir mai trefi yw'r prif leoliad ar

gyfer tai (marchnad agored a fforddiadwy), tir cyflogaeth, unrhyw dwf manwerthu (e.e. archfarchnadoedd), gwasanaethau cyhoeddus a datblygiadau sy'n cynhyrchu nifer fawr o deithiau. Cynllunnir twf tai yn gymesur â maint a lefel cyfleusterau pob tref, er bod gallu trefi i ymdopi â thwf yn amrywio yn ôl cyfyngiadau'r amgylchedd a'r seilwaith. Cyhoeddwyd y Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Gorffennaf a Medi 2014. Fodd bynnag oherwydd sylwadau Llywodraeth Cymru nad oedd rhagor o dystiolaeth ar gael i gefnogi'r Cynllun cafwyd ail gyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Adnau rhwng Mehefin a Gorffennaf 2015. Mae wedi cyflwyno y Cynllun i Llywodraeth Cymru yn Ionawr 2016.

Ceredigion - Mae gan Geredigion chwe phrif dref a nodir mewn cynlluniau strategol presennol, Cynllun Gofodol Cymru a dynodiad 'Chwe Phrif Dref Ceredigion' y Strategaeth Gymunedol. Y rhain yw Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr, Llandysul a Thregaron. I gefnogi ac i gynorthwyo i gyflawni'r strategaethau hyn, defnyddir yr un trefi fel y Canolfannau Gwasanaeth Trefol yn y CDLI. Aberystwyth yw'r dref fwyaf yng Ngheredigion ac mae'n cyflawni rôl genedlaethol yn ogystal â rhanbarthol ar gyfer canolbarth Cymru, fel y cydnabyddir yng Nghynllun Gofodol Cymru, yn ogystal â rôl sirol, is-sirol a lleol. Fe'i nodwyd yn ardal flaenoriaeth ar gyfer ymyrraeth â ffocws gan Adran yr Economi a Thrafnidiaeth (AEaTh) a'i phartneriaid i gyflawni ei rôl fel Prif Dref Canol Cymru. Mae canolbwyntio ymyrraeth yn ffurf Ardal Adfywio Strategol (AAS) yn cynnig cyfle sylweddol i wireddu buddion dull mwy strategol o fynd i'r afael ag adfywio yn rhanbarth Canol Cymru. Gan Aberystwyth y mae'r cyfleusterau siopa mwyaf a mwyaf amrywiol sy'n gweithredu fel canolfan ranbarthol ar gyfer ardal Canolbarth Cymru. Adlewyrchir hyn yn y ffaith bod 4.8% o drosiant nwyddau cymharol Gwynedd yn cael ei wario yn Aberystwyth (yn bennaf o dde'r Sir). Fe'i lleolir ar reilffordd Arfordir y Cambria sy'n ei chysylltu â Phwllheli. Cafodd CDLI Ceredigion ei fabwysiadu yn Ebrill 2013.

Goblygiadau ar gyfer yr Hierarchaeth Aneddiadau

- Nodir atyniad Llandudno fel cyrchfan manwerthu.
- Ceir perthynas agos â Pharc Cenedlaethol Eryri gyda chanolfannau gwasanaeth yn y ddau awdurdod yn gwasanaethu cefnwlad ehangach yn ardal y naill awdurdod a'r arall.
- Rôl cyflogaeth Trawsfynydd i rhannau o Ardal Cynllunio Gwynedd.
- Mae Machynlleth yn darparu cyfleoedd gwaith ar gyfer rhan o Dde Meirionnydd.
- Tra bo gan Aberystwyth rôl ranbarthol bwysig ar gyfer Canol Cymru oherwydd ei bellter o Wynedd, ar wahân i darpariaeth manwerthu mae ei dylanwad yn llai ar Dde Meirionnydd.
- Mae rôl Corwen o ran diwallu anghenion lleol yn ogystal ag agosrwydd y Bala at Ward Llandderfel yn golygu bod y rhan fwyaf o anghenion yr ardal yn cael eu diwallu yn y Bala.

5. Sefyllfa'r Cynllun Datblygu Presennol

5.1 Mae'r bennod hon yn adolygu'r Hierarchaeth Aneddiadau a gynhwysir o fewn Cynlluniau Datblygu presennol o fewn yr ardal sef:

- Ardal Gynllunio Gwynedd - y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) mabwysiedig (2009); ac
- Ynys Môn – y Cynllun Lleol (1996) ac oherwydd oed y Cynllun Datblygu ym Môn adolygir y CDU wedi'i stopio (2005) hefyd.

5.2 Gwynedd (CDLI 2009)

5.2.1 Sefydlwyd wyth Ardal Dalgylch Dibyniaeth (ADD) fel sail y strategaeth ofodol ar gyfer arwain datblygu a mynd i'r afael â materion ac amodau presennol. Nid ydynt yn seiliedig ar ffiniau gweinyddol o fewn y sir ond yn hytrach ar nodweddion amrywiol gwahanol rannau o'r ardal ynghyd â'r rhyngweithiad cymdeithasol ac economaidd a'r ddibyniaeth rhwng y gwahanol aneddiadau.

5.2.2 Un o nodweddion ardal y Cynllun yw nifer y 'Canolfannau', sy'n amrywio yn nhermau eu maint a'u swyddogaeth, ac maent yn amrywio yn nhermau pa mor hunangynhaliol ydynt ynghyd â lefel y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael oddi mewn iddynt. Er hynny, mae'r Canolfannau'n adnodd pwysig i'r ardaloedd gwledig amgylchynol, a gallant gynnig y clwstwr agosaf o siopau, ysgol uwchradd neu gyfleuster iechyd ar gyfer nifer o breswylwyr gwledig, yn enwedig y rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd gwledig mwy anghysbell.

5.2.3 Roedd yn bosib nodi ardaloedd gweithredol ar gyfer nifer o weithgareddau, e.e. manwerthu, addysg uwchradd, yn ogystal â phatrymau teithio i'r gwaith. Er bod ffiniau'r ardaloedd gweithredol hyn ychydig yn wahanol, roedd elfennau cyffredin. Yr elfennau cyffredin hyn oedd y sail ar gyfer y penderfyniad mewn perthynas â graddau'r ADDau.

5.2.4 Yn gyffredinol, mae graddau'r ADDau yn debyg i'r Ardaloedd Marchnad Dai Lleol fel y dangosir yn yr Asesiad Marchnad Dai Lleol sy'n datblygu.

5.2.5 Trwy ystyried y cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n wynebu'r Dalgylchoedd Dibyniaeth a'r aneddiadau unigol oddi mewn iddynt, mae'r Cynllun yn nodi'r amryw anghenion o fewn y Dalgylchoedd hyn ynghyd ag ymdrechion i fynd i'r afael â hwy. Mae'r dull hwn o ffurfio'r strategaeth ofodol yn ymwneud â nodi hierarchaeth o aneddiadau sydd, yn bennaf, yn seiliedig ar rôl a swyddogaeth y gwahanol aneddiadau yn eu hardal leol, h.y. y ADD, yn hytrach na'i seilio ar ei maint a maint y boblogaeth. Ystyrir y bydd arwain datblygu yn unol â rôl a swyddogaeth yr anheddiad yn y ADD yn:

- diogelu gwell cydbwysedd rhwng tai a chyflogaeth;
- yn osgoi creu nifer ormodol o deithiau newydd yn defnyddio car neu nifer ormodol o deithiau hirach yn defnyddio car;
- cyflawni patrwm datblygu a fydd yn cynnal bywiogrwydd a hyfywedd ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd.

5.2.6 I ganiatáu ar gyfer asesiad cynhwysfawr o'r sir, i adlewyrchu'r ffaith nad oes ffiniau daearyddol rhwng ardal CDU Gwynedd ac ardal cynllun datblygu Parc Cenedlaethol Eryri a bod rhai materion strategol sy'n effeithio'r ddwy ardal gynllunio, mae'r Dalgylchoedd Dibyniaeth yn cynnwys yr ardaloedd hynny o Wynedd sy'n gorwedd o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd

ymgyngori a chydweithredu parhaus rhwng y ddau awdurdod cynllunio. Fodd bynnag, nid yw CDU Gwynedd yn arwain datblygu mewn ardaloedd o'r sir sy'n gorwedd o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri.

5.2.7 Roedd y strategaeth aneddiadau ei hun wedi nodi 5 haen o aneddiadau sef:


- Canolfan Isranbarthol (1 anheddiad);
- Canolfannau Trefol (4);
- Canolfannau Lleol (8);
- Pentrefi (56);
- Pentrefi Gwledig (41).

5.2.8 Mae gan y Canolfan Isranbarthol a Canolfannau Trefol rôl bwysig o fewn ardal eang gan eu bod yn ffocws i siopwyr, gwasanaethau iechyd, ysgolion a chollegau/prifysgolion a stadau diwydiannol/cyflogaeth. Mae Canolfannau Lleol wedi ei lleoli ar prif-ffyrdd allweddol ac yn bodloni anghenion dyddiol ardal wledig eang.

5.2.9 Er mwyn penderfynu p'un a fyddai aneddiadau'n cael eu galw'n Bentrefi neu'n Bentrefi Gwledig, ystyriwyd y cyfleusterau a'r gwasanaethau oedd ar gael. Penderfynwyd y byddai bob anheddiad a chanddynt dri neu ragor o wasanaethau neu gyfleusterau yn cael eu hystyried yn Bentrefi.

5.2.10 Dengys y map isod y ADD ynghyd â lleoliad aneddiadau yn hierarchaeth y CDLI yn ogystal â'r anheddiad mwy yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri:

Map 9 – CDU Gwynedd (2009) Hierarchaeth Aneddeoedd




5.3 Ynys Môn (Cynllun Lleol 1996)

5.3.1 Mae Atodiad 9 o Gynllun Lleol Ynys Môn (1996) yn nodi ffactorau sy'n effeithio dyraniadau tai mewn amryw aneddiadau. Mae'n amcangyfrif nifer y tai, yr ystod o wasanaethau a chyfleusterau, cyfyngiadau amgylcheddol a % y siaradwyr Cymraeg ym mhob anheddiad.

- 5.3.2 Arweiniodd hyn at hierarchaeth aneddiadau dwy haen sef:
- Aneddiadau Diffiniedig (24 anheddiad); ac
 - Aneddiadau Rhestredig (64).
- 5.3.3 Ystyriwyd bod datblygiadau tai mawr yn addas o fewn Aneddiadau Diffiniedig ond ddim ond datblygiadau cyfyngedig fyddai'n cael eu caniatáu mewn aneddiadau rhestredig os oeddent yn unol â meini prawf caeth. Roedd yr aneddiadau hynny a nodwyd yn Aneddiadau Rhestredig yn cynnwys grŵp agos iawn o o leiaf 10 tŷ.
- 5.4 Ynys Môn (CDU wedi'i stopio 2005)
- 5.4.1 Roedd y dosbarthiad dwy haen o drefi a phentrefi yn aneddiadau 'diffiniedig' neu 'restredig' a ddefnyddiwyd yng Nghynllun Lleol Ynys Môn (a fabwysiadwyd ym 1996) wedi cael ei adolygu a'i fireinio ar gyfer y CDU. Yn y strategaeth newydd, dosbarthwyd trefi a phentrefi yn ôl maint ac argaeledd gwasanaethau cymunedol, a gyfatebwyd ag asesiad technegol o'u gallu i dderbyn datblygu pellach, eu capasiti o ran ffyrdd a thraffig yn ogystal â chyfyngiadau o ran isadeiledd. Y canlyniad yw dosbarthiad o aneddiadau o fewn bob ardal ddaearyddol, sy'n ffurfio sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch faint o ddatblygu sy'n briodol ar gyfer bob lle.
- 5.4.2 Defnyddiwyd cyfuniad o strategaeth 'o'r brig i lawr' gyda data cyflenwyr 'o'r gwaelod i fyny' i lywio'r polisi dosbarthu ar gyfer datblygu tai. Mae'r tai newydd, yn gyffredinol wedi'u dosrannu ar sail y boblogaeth bresennol, ac wedi'u dosbarthu rhwng saith is-ardal o'r Ynys, y mae bob un ohonynt yn cwmpasu nifer o bentrefi o amgylch Prif Ganolfannau a Chanolfannau Eilaidd. Diffinnir saith o'r is-ardaloedd neu 'grwpiau daearyddol' hyn ar gyfer dosrannu a dosbarthu'r gofyniad cyffredinol am dai.
- 5.4.3 Roedd y strategaeth aneddiadau ei hun wedi nodi 4 categori o aneddiadau sef:
- Prif Ganolfannau (3 anheddiad);
 - Canolfannau Eilaidd (11);
 - Pentrefi (35);
 - Pentrefannau a Chlystyrau (47).
- 5.4.4 Ni chynhwysir unrhyw fanylion penodol o fewn y CDU wedi'i stopio o ran maint a'r cyfleusterau cymunedol a ddefnyddiwyd i asesu rôl aneddiadau o fewn yr hierarchaeth.
- 5.4.5 Mae'r map isod yn dangos y saith is-ardal ynghyd â lleoliad aneddiadau yn hierarchaeth y CDU:

Map 10 – CDU Ynys Môn (2005) Hierarchaeth Aneddeoedd



5.5 Mae'r bennod a ganlyn yn nodi methodoleg ar gyfer creu hierarchaeth aneddiadau.

6. Y Fethodoleg mewn Awdurdodau Cyfagos

6.1 Mae'r bennod hon yn adolygu'r dull a ddefnyddiwyd gan awdurdodau cyfagos cyn amlinellu'r dull a gytunwyd ar gyfer ymgymryd ag asesiad o rôl bresennol canolfannau o fewn ardal y CDLI ar y Cyd.

6.2 Yr Ymagwedd mewn Awdurdodau Cyfagos

6.2.1 Isod ceir crynodeb o'r ymagwedd a ddefnyddiwyd gan awdurdodau cyfagos i greu eu hierarchaeth aneddiadau eu hunain:

Tabl 7 – Methodoleg Hierarchaeth Aneddiadau mewn Awdurdodau Cyfagos

Awdurdod	Ymagwedd
Parc Cenedlaethol Eryri	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyriwyd tair elfen sef: <ul style="list-style-type: none"> ○ gwasanaethau a chyfleusterau (18 i gyd); ○ darpariaeth cludiant cyhoeddus; ○ poblogaeth amcangyfrifedig aneddiadau. • Rhoddwyd amryw sgoriau ar gyfer gwasanaethau a chludiant cyhoeddus a luoswyd wedyn gyda'r sgôr ar gyfer y boblogaeth. • Nodwyd 8 parth dylanwad (y mae'r mwyafrif ohonynt yn ymestyn y tu allan i ardal yr awdurdod) gyda thrafodaeth am y materion allweddol ar gyfer bob ardal. • Arweiniodd hyn at hierarchaeth aneddiadau 4 haen fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> ○ Canolfannau Gwasanaeth Lleol (2 anheddiad) ○ Aneddiadau Gwasanaeth (5) ○ Aneddiadau Eilaidd (39) ○ Aneddiadau Llai (29).
Conwy	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyriwyd pedair elfen sef: <ul style="list-style-type: none"> ○ Maint aneddiadau (poblogaeth); ○ Cyfleusterau (adolygwyd 5 maen prawf cyffredinol); ○ Pwysau o ran twf; ○ Gwasanaethau sydd ar gael. • Arweiniodd hyn at hierarchaeth aneddiadau 5 haen fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> ○ Canolfannau Trefol (12 anheddiad) ○ (Haen Un) Prif Bentrefi (4) ○ (Haen Dau) Prif Bentrefi (9) ○ Mân Bentrefi (16) ○ Pentrefannau (24).
Sir Ddinbych	<ul style="list-style-type: none"> • Fe wnaeth ei strategaeth datblygu ddod i'r casgliad am nifer o resymau mae nifer bach o safleoedd datblygu mawr oedd y ffordd orau o ddarparu'r twf strategol oedd ei angen. • Adolygwyd y prif aneddeoedd er mwyn darganfod y lleoliadau mwyaf addas a chynaliadwy ar gyfer datblygiad. • Arweiniodd hyn at hierarchaeth aneddiadau 5 haen fel a ganlyn:

Awdurdod	Ymagwedd
	<ul style="list-style-type: none"> ○ Safle Strategol Allweddol (1 anheddiad) ○ Trefi Twf Is (6) ○ Pentrefi (33) ○ Pentrefannau (26) ○ Cefn Gwlad Agored (dim anheddiad penodol ond yn hytrach addasu a mewnlenni).
Powys	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyriwyd dwy elfen sef: <ul style="list-style-type: none"> ○ Maint yn seiliedig ar amcangyfrifiad o'r boblogaeth; ○ Ystod o wasanaethau allweddol a chyfleusterau (10 i gyd). • Ardaloedd gofodol gweithredol a ddiffiniwyd gan weithgor yn seiliedig ar ardal teithio i'r gwaith a mynediad i wasanaethau. • Arweiniodd hyn at hierarchaeth aneddiadau 6 haen fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> ○ Trefi (14 anheddiad) ○ Pentrefi Mawr (43) ○ Pentref Bach (45) ○ Pentrefan (61) ○ Aneddiadau Gwledig (Heb eu henwi ond ar sail meini prawf sef (i) yn anheddle cydnabyddiedig hanesyddol, (ii) efo o leiaf 10 tŷ a mewn lleoliad gwledig, (iii) gallu bod yn glwstwr neu'n fwy gwasgaredig) ○ Cefn Gwlad (dim ond Anheddau Mentrau Gwledig a Datblygiadau Un Blaned)
Ceredigion	<ul style="list-style-type: none"> • Edrychwyd ar bum elfen: <ul style="list-style-type: none"> ○ y boblogaeth bresennol; ○ cyfraddau cwblhau diweddar; ○ rôl aneddiadau fel y nodwyd gan ddogfennau polisi allweddol; ○ lefel y gwasanaethau a'r cyfleusterau; ○ capasiti ar gyfer datblygu. • Sefydlwyd 22 Grŵp Anheddiad sy'n adlewyrchu cylch dylanwad pob un o'r Canolfannau Gwasanaeth. O fewn y Grwpiau hyn ceir: <ul style="list-style-type: none"> ○ 7 Canolfan Gwasanaeth Trefol (1 y tu allan i'r Sir) <ul style="list-style-type: none"> ▪ 87 Anheddiad â Chyswllt Trefol (24 y tu allan i'r Sir). ○ 15 Canolfan Gwasanaeth Gwledig <ul style="list-style-type: none"> ▪ 67 Anheddiad â Chyswllt Gwledig (4 y tu allan i'r Sir).

Goblygiadau ar gyfer yr Hierarchaeth Aneddiadau

- Tra bo amrywiaethau'n bodoli yn y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan wahanol awdurdodau, ceir rhai ffactorau sy'n ffurfio rhan o'r asesiad a ddefnyddiwyd gan bob awdurdod sef:
 - Maint yr aneddiadau;
 - Ystod y Gwasanaethau a'r Cyfleusterau;
 - Darpariaeth Cludiant Cyhoeddus.

- Yn yr aneddiadau llai, dim ond datblygiadau Tai Fforddiadwy yn amodol ar fodloni meini prawf manwl.

7. Methodoleg yn y CDLI ar y Cyd

7.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r asesiad manwl a wnaed i nodi rôl bresennol canolfannau o fewn ardal y CDLI ar y Cyd. Mae'n nodi'r gwahanol gyfleusterau / gwasanaethau a aseswyd o fewn bob anheddiad ynghyd â'r sgôr a roddwyd ar gyfer y rhain. Rhoddir y sgôr ar gyfer bob anheddiad unigol yn ogystal â'r meini prawf a ddefnyddir i gategoreiddio'r aneddiadau hyn yn wahanol fathau o aneddiadau o fewn yr ardal. Lleolir yr aneddiadau unigol yn y categori perthnasol gyda disgrifiad o'r math o ddatblygiad a ragwelir o fewn categorïau o'r fath.

7.2 Sgorio Gwasanaethau / Cyfleusterau

7.2.1 Fe gafodd yr adolygiad o'r ymagwedd a ddefnyddiwyd mewn cynlluniau datblygu blaenorol ac mewn awdurdodau cyfagos ei adrodd i Banel y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yng Ngorffennaf a Medi 2012 ynghyd ag ystod o opsiynau o ran sgorio aneddiadau yn seiliedig ar y math a nifer y gwasanaethau / cyfleusterau (y cyfeirir atynt fel gwasanaethau yng ngweddill yr adran hon) o fewn anheddiad unigol.

7.2.2 Argymhellodd swyddogion y dylid cynnwys ystod eang o wasanaethau (cyfanswm o 29) yn yr asesiad gyda'u sgorio'n seiliedig ar:

- roi sgôr uwch i Wasanaethau Allweddol, fel y diffinnir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, e.e. swyddfa bost, ysgol gynradd;
- rhoi sgôr uwch i rai gwasanaethau yn dibynnu ar eu maint e.e. poblogaeth, cyfleoedd cyflogaeth;
- rhoi sgôr uwch i nifer o wasanaethau penodol mewn aneddiadau e.e. Neuadd Dref/Bentref, Tŷ Tafarn;
- o ran rhai gwasanaethau, lluosir eu sgôr unigol efo nifer y gwasanaethau sydd ar gael mewn anheddiad e.e. ysgolion cynradd, Meddygfa.

7.2.3 Mae'r tabl isod yn nodi'r gwasanaethau a gynhwysir o fewn y fethodoleg hon ynghyd â sail eu sgorio. Eglurir y modd y mae'r gwasanaethau wedi'u gategoreiddio ynghyd â'r sgorio manwl ar gyfer bob gwasanaeth o fewn Atodiad 1.

Tabl 8 – Y Fethodoleg Sgorio a ddefnyddiwyd i Nodi Rolau Canolfannau o fewn Ardal y CDLI ar y Cyd

Categori	Gwasanaeth a Sgoriwyd	Sail y Sgôr			
		Gwasanaeth Allweddol (fel y nodwyd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)	Sgôr yn seiliedig ar Faint y Gwasanaeth	Nifer yr Unedau y rhoddwyd Sgôr Uwch iddynt	Sgôr unigol a Luoswyd ar gyfer bob gwasanaeth sy'n bresennol
Demograffeg	Amcangyfrif o'r Boblogaeth	✘	✔	✘	✘
Addysg	Cylch Chwarae	✘	✘	✔	✘
	Ysgol Gynradd	✔	✘	✘	✔
	Ysgol Uwchradd	✔	✘	✘	✔

Categori	Gwasanaeth a Sgoriwyd	Sail y Sgôr			
		Gwasanaeth Allweddol (fel y nodwyd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)	Sgôr yn seiliedig ar Faint y Gwasanaeth	Nifer yr Unedau y rhoddwyd Sgôr Uwch iddynt	Sgôr unigol a Luoswyd ar gyfer bob gwasanaeth sy'n bresennol
	Coleg	✗	✗	✓	✗
Iechyd	Meddygfa	✓	✗	✗	✓
	Deintydd	✓	✗	✗	✓
	Ysbyty	✗	✗	✓	✗
	Fferyllfa	✗	✗	✓	✗
	Optegydd	✗	✗	✓	✗
Hamdden	Canolfan Hamdden	✓	✗	✗	✓
	Neuadd Dref / Bentref	✗	✗	✓	✗
	Llyfrgell	✓	✗	✗	✓
	Sinema / Theatr	✗	✗	✓	✗
	Man Addoli	✗	✗	✓	✗
	Ty Tafarn	✗	✗	✓	✗
Manwerthu	Swyddfa Bost	✓	✗	✗	✓
	Siop Cyfleustra	✓	✗	✗	✗
	Siop Fwyd Fawr	✗	✓	✓	✗
	Siopau Eraill	✗	✗	✓	✗
Gwasanaethau	Gorsaf Betrol	✗	✗	✓	✗
	Gorsaf Heddlu	✗	✗	✗	✓
	Gorsaf Dàn	✗	✗	✗	✓
	Banc / Cymdeithas Adeiladu	✗	✗	✓	✗
	Peiriant Arian Parod	✗	✗	✓	✗
Cludiant	Nod Cludiant	✓	✗	✗	✗
	Gwasanaeth Bws	✗	✓	✗	✗
	Gwasanaeth Trenau	✗	✓	✗	✗
Yr Economi	Cyflogaeth	✗	✓	✗	✗

7.2.4 Casglwyd ystod y gwasanaethau ym mhob anheddiad yn unol â'u categoreiddiad fel yr amlinellir yn Atodiad 1. Mae'r tabl isod yn darparu'r sgôr cyffredinol ar gyfer bob anheddiad, mae Atodiad 2 yn darparu rhestr o aneddiadau ynghyd â'r ystod o wasanaethau a geir ym mhob un.

Tabl 9 – Sgôr Aneddiadau

Anheddiad	Sgôr	Anheddiad	Sgôr	Aheddiad	Sgôr
1] Gwynedd					
Bangor	179	Caernarfon	117	Pwllheli	91
Porthmadog	85	Blaenau Ffestiniog	84	Tywyn	79
Bethesda	71	Abermaw	65	Penygroes	59
Nefyn	52	Llanberis	50	Criccieth	49
Penrhyndeudraeth	49	Abersoch	48	Llanrug	44
Y Felinheli	34	Deiniolen	33	Tremadog	32
Botwnnog	30	Llanbedrog	29	Bethel	28
Morfa Nefyn	28	Rachub	28	Llanaelhaearn	27
Corris	26	Y Ffor	26	Chwilog	25
Bontnewydd	24	Mynytho	24	Talysarn	24
Waunfawr	24	Aberdaron	23	Cwm-y-Glo	23
Groeslon	23	Trefor	23	Tregarth	23
Erern	22	Garndolbenmaen	22	Carmel	21
Tudweiliog	21	Sarn Mellteyrn	20	Borth-y-Gest	19
Llanystumdwy	19	Rhostryfan	19	Clynnog Fawr	18
Y Garreg-Llanfrothen	18	Morfa Bychan	18	Llanllyfni	17
Abererch	16	Llithfaen	16	Rhiwlas	16
Rhosgadfan	16	Efailnewydd	15	Llandygai	14
Penisarwaun	14	Dinas (Llanwnda)	14	Brynrefail	13
Caeathro	13	Fairbourne	13	Llandwrog	12
Rhoshirwaun	11	Llanengan	10	Nantlle	10
Y Fron	10	Dinas Dinlle	9	Llandderfel	9
Dolydd / Maen Coch	8	Llangian	8	Pentreuchaf	8
Pontllyfni	8	Rhydyclafdy	8	Sarn Bach	8
Talybont	8	Bryncir	7	Glasinfryn	7
Llangybi	7	Llanwnda	7	Pentrefelin	7
Friog	6	Minffordd	6	Penmorfa	6
Pentir	6	Tan y Coed	6	Bryncroes	5
Caerhun / Waen Wen	5	Corris Uchaf	5	Dinorwig	5
Llanllechid	5	Llannor	5	Mynydd Llandygai	5
Ty'n Lon	5	Pant Glas	5	Aberdesach	4
Aberllefenni	4	Aberpwll	4	Bethesda Bach	4
Bwlchtocyn	4	Capel y Graig	4	Llanaber	4
Llanfor	4	Llaniestyn	4	Llwyn Hudol	4
Minffordd (Bangor)	4	Nebo	4	Penrhos (Caeathro)	4
Rhiw	4	Saron (Llanwnda)	4	Swan	4
Tai'n Lon	4	Treborth	4	Waun (Penisarwaun)	4
Gallt y Foel	3	Groeslon Waunfawr	3	Pencaenewydd	3
Penrhos	3	Pistyll	3	Rhos Isaf	3
Rhoslan	3	Talwaenydd	3	Bryn Eglwys	3
Machroes	3	Capel Uchaf	2	Ceidio	2

Anheddiad	Sgôr	Anheddiad	Sgôr	Aheddiad	Sgôr
Crawiau	2	Dinas (Penllyn)	2	Llangwnadl	2
2] Ynys Môn					
Caergybi / Holyhead	125	Llangefni	101	Amlwch	80
Porthaethwy / Menai Bridge	77	Biwmares / Beaumaris	64	Benllech	60
Y Fali / Valley	56	Llanfairpwll	55	Cemaes	54
Rhosneigr	47	Gaerwen	39	Bodedern	38
Pentraeth	38	Llanerchymedd	33	Gwalchmai	29
Moelfre	28	Trearddur	28	Niwbwrch	27
Brynsiencyn	26	Penysarn	25	Llandegfan	25
Llanfachraeth	24	Llangoed	23	Dwyran	23
Bryngwran	22	Llanfechell	21	Rhosybol	21
Llanddaniel Fab	20	Bodffordd	19	Llanfihangel yn Nhowyn	19
Aberffraw	18	Caergeiliog	18	Llanddona	18
Llanfaelog	18	Talwrn	18	Llangaffo	17
Pont Rhyd y Bont	15	Bethel	14	Malltraeth	14
Llangristiolus	13	Llanfaethlu	11	Pentre Berw	11
Carreglefn	10	Llanbedrgoch	10	Pencarnisiog	10
Brynteg	9	Porth Llechog	9	Tregele	11
Traeth Coch	9	Llanfaes	7	Rhostrehwfa	7
Trefor	5	Tynyngongl	7	Brynminceg (Hen Llandegfan)	6
Gorsaf Gaerwen	6	Llanrhuddlad	10	Marianglas	6
Pen Y Marian	6	Bryn Du	5	Brynrefail	5
Cichle	5	Glanyrafon	5	Llansadwrn	5
Llynfaes	5	Rhydwyn	5	Bro Iarddur (Trearddur)	4
Bryn y Môr (Y Fali)	4	Capel Coch	4	Carmel	4
Cerrigman	4	Elim	4	Glyn Garth	4
Haulfre (Llangoed)	4	Hebron	4	Hermon	4
Llanddeusant	4	Llangadwaladr	4	Llanynghenedl	4
Nebo	4	Penmon	4	Pentre Canol	4
Rhoscefnhir	4	Rhosmeirch	4	Bodorgan	3
Bwlch Gwyn	3	Capel Parc	3	Hendre Hywel	3
Llaneilian	3	Llanfairynghornwy	3	Penygroes	3
Star	3	Capel Mawr	2	Mynydd Mechell	2
Pengorffwysfa	2	Penlon	2	Penygraigwen	2
Ty'n Iôn (Glan yr Afon)	2				

7.3 Categoriâu o Aneddiadau

7.3.1 Mae'r Tabl 9 uchod yn darparu sgôr ar gyfer pob anheddiad yn seiliedig ar nifer, math a graddfa gwasanaethau presennol o fewn bob cymuned. Y cam nesaf oedd nodi'r categorïau cyffredinol o aneddiadau sy'n bodoli o fewn yr

ardal. Nodir y rhain yn y tabl isod ynghyd â disgrifiad o nodweddion bob categori o aneddiadau:

Tabl 10 – Categorïau o Aneddiadau

Categori o Aneddiadau	Meini Prawf ar gyfer bob Categori Penodol
Canolfan Is-ranbarthol	<p>Canolfan a chanddi gysylltiadau ffyrdd a rheilffordd strategol gyda Chanolbwyntiau Allweddol eraill yn y rhanbarth. Mae'n ganolfan fanwerthu nid yn unig ar gyfer ei chefnwlad uniongyrchol ond ar gyfer ardaloedd ehangach yn yr ardal leol. Yn chwarae rôl drawsffiniol yn nhermau cyfleusterau cyflogaeth, addysg, iechyd a hamdden. Mae ganddi gysylltiadau cludiant cyhoeddus ardderchog o fewn ac y tu allan i'r ardal.</p>
Canolfannau Gwasanaeth	<p>Ystyrir bod dau fath o Ganolfan Gwasanaeth o fewn yr ardal leol sef:</p> <p><u>Trefol</u> - Ystod dda o gyfleoedd cyflogaeth, manwerthu a gwasanaeth sy'n gwasanaethu eu poblogaeth eu hunain yn ogystal â dalgylch eang.</p> <p><u>Lleol</u> – Yn darparu ar gyfer anghenion gwasanaeth hanfodol ar gyfer ei phoblogaeth ei hun a'r dalgylch uniongyrchol. Mae ganddi rai cyfleoedd cyflogaeth a manwerthu ynghyd â hygyrchedd da gan gludiant cyhoeddus i ganolfannau lefel uwch.</p>
Pentrefi	<p>Mae ganddo o leiaf un o'r Gwasanaethau Allweddol a nodwyd ynghyd â nifer gyfyngedig o wasanaethau eraill sy'n gwasanaethu'r anheddiad ynghyd â chlystyrau lefel is yn ei gyffiniau uniongyrchol.</p> <p>Ystyrir bod pedwar math cyffredinol o Bentreff o fewn yr ardal leol sef:</p> <p><u>Gwasanaeth</u> - nifer uwch o wasanaethau o gymharu â mwyafrif y Pentrefi eraill ynghyd â hygyrchedd da gan gludiant cyhoeddus i ganolfannau lefel uwch. Ystyrir fod ganddynt rôl fwy strategol o gymharu â Phentrefi eraill.</p> <p><u>Lleol</u> – Llai o wasanaethau a cysylltiadau fwy cyfyniedig efo tranidiaeth cyhoeddus efo canolfan uwch o'i gymharu efo Pentref Gwasanaethol. Canran is na cyfartaledd ar gyfer y nifer o dai haf neu ail gartrefi.</p> <p><u>Arfordirol</u> – Ceir ystod amrywiol o wasanaethau o fewn y Pentrefi hyn. Lleoliad arfordirol gyda chyfartaledd uwch na chyfartaledd yr ardal o gartrefi gwyliau neu ail gartrefi.</p> <p><u>Gwledig</u> - Nifer gyfyngedig o wasanaethau a chanddynt gysylltiadau cludiant cyhoeddus gwael i ganolfannau lefel uwch.</p>

Categoriâu o Aneddiadau	Meini Prawf ar gyfer bob Categori Penodol
Clystyrau	Aneddiadau bach yn bennaf sy'n cynnwys clwstwr tynn, digonol o dai sy'n haws i'w diffinio. Ceir ambell anheddiad o faint cymharol fwy yn eu plith. Fodd bynnag, nid yw yr un o'r clystyrau'n cynnwys cyflenwad digonol o gyfleusterau neu wasanaethau ac felly maent yn ddibynnol ar ganolfannau lefel uwch. Mae'r dewis o Glystyrau yn seiliedig ar gyngor polisi cynllunio cenedlaethol – y trothwy ar gyfer gwahaniaethu rhwng Clwstwr a Chefn Gwlad yw grŵp cydlynus o 10 o dai neu ragor, gyda chyswllt gweithredol â chanolfan lefel uwch yn seiliedig ar ei leoliad ar lwybr bysiau gyda safle bws neu o fewn 800 metr i safle bws. Ystyrir bod hyn yn cyd-fynd â'r angen i ganolbwyntio datblygiadau mewn aneiddiadau a chanddynt wasanaethau'n bodoli ar hyn o bryd. O ystyried natur wasgaredig tai ledled yr ardal, byddai trothwy is yn arwain i lai o ddatblygu mewn lleoliadau mwy cynaliadwy ledled ardal y Cynllun.

7.4 Categoreiddio Aneddiadau

- 7.4.1 Yn seiliedig ar y sgôr ar gyfer bob anheddiad ynghyd â dadansoddiad o'r gwasanaethau o fewn bob anheddiad, fe gategoreiddiwyd yr aneiddiadau fel a ganlyn:

Tabl 11 - Aneiddiadau yn ôl Categori


Categori	Aneiddiadau
Canolfan Is-Ranbarthol	Bangor
Canolfannau Gwasanaeth Trefol	<u>Anglesey</u> : Amlwch, Caergybi, Llangefni. <u>Gwynedd</u> : Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli.
Canolfannau Gwasanath Lleol	<u>Anglesey</u> : Bimares, Benllech, Bodedern, Cemaes, Gaerwen, Llanfairpwll, Porthaethwy, Pentraeth, Rhosneigr, Y Fali. <u>Gwynedd</u> : Abermaw, Abersoch, Bethesda, Criccieth, Llanberis, Llanrug, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Penygroes, Tywyn.
Pentrefi Gwasanaeth	<u>Anglesey</u> : Gwalchmai, Niwbwrch, Llannerch-y-medd. <u>Gwynedd</u> : Bethel, Bontnewydd, Botwnnog, Chwilog, Deiniolen, Rachub, Tremadog, Y Ffor.
Pentrefi Lleol	<u>Anglesey</u> : Bethel, Bodffordd, Bryngwran, Brynsiencyn, Caergeiliog, Dwyran, Llandegfan,

Categori	Aneddiadau
	<p>Llanddaniel Fab, Llanfachraeth, Llanfaethlu, Llanfechell, Llanfihangel yn Nhowyn, Llangaffo, Llangristiolus, Llanrhuddlad, Pencarneisiog, Penysarn, Rhosybol, Talwrn, Tregele.</p> <p><u>Gwynedd</u>: Abererch, Brynrefail, Caeathro, Carmel, Cwm y Glo, Dinas (Llanwnda), Dinas Dinlle, Dolydd a Maen Coch, Efailnewydd, Garndolbenmaen, Garreg-Llanfrothen, Groeslon, Llandwrog, Llandygai, Llangybi, Llanllyfni, Llanystumdwy, Nantlle, Penisarwaun, Pentref Uchaf, Rhiwlas, Rhosgadfan, Rhostryfan, Sarn Mellteyrn, Talysarn, Tregarth, Trefor, Tudweiliog, Waunfawr, Y Fron.</p>
<p>Pentrefi Arfordirol / Gwledig</p>	<p><u>Anglesey</u>: Aberffraw, Carreglefn, Pont Rhyd y Bont, Llanbedrgoch, Llanddona, Llanfaelog, Llangoed, Malltraeth, Moelfre, Trearddur.</p> <p><u>Gwynedd</u>: Aberdaron, Borth y Gest, Clynog Fawr, Corris, Edern, Fairbourne, Llanaelhaearn, Llanbedrog, Llangian, Llithfaen, Morfa Bychan, Morfa Nefyn, Mynytho, Rhoshirwaun, Sarn Bach, Y Felinheli.</p>
<p>Clystyrau</p>	<p><u>Anglesey</u>: Bodorgan, Bro Iarddur (Trearddur), Bryn Du, Brynminceg (Hen Llandegfan), Brynrefail, Brynteg, Bryn y Mor (Y Fali), Bwlch Gwyn, Capel Coch, Capel Mawr, Capel Parc, Carmel, Cerrigman, Cichle, Haulfre (Llangoed), Elim, Glanyrafon, Glyn Garth, Gorsaf Gaerwen, Hebron, Hendre Hywel (Pentraeth), Hermon, Llanddeusant, Laneilian, Llanfaes, Llanfairynghornwy, Llangadwaladr, Liansadwrn, Llanynghenedl, Llynfaes, Marianglas, Mynydd Mechell, Nebo, Pen y Groes, Pen y Marian, Pengorffwysfa, Penlon, Penmon, Pentre Berw, Pentre Canol (Caergybi), Penygraigwen, Porth Llechog, Rhoscefnhir, Rhosmeirch, Rhostrehwfa, Rhydwyn, Star, Traeth Coch, Trefor, Tyn Lon (Glan yr Afon), Tynyngogl.</p> <p><u>Gwynedd</u>: Aberdesach, Aberllefenni, Aberpwll, Bethesda Bach, Bryncir, Bryncroes, Bryn Eglwys, Bwlchtocyn, Penrhos (Caeathro), Caerhun/Waen Wen, Capel Uchaf, Capel y Graig, Ceidio, Corris Uchaf, Crawiau, Dinas (Llyn), Dinorwig, Friog, Gallt y Foel, Glasinfryn, Groeslon Waunfawr, Llanaber, Llandderfel, Llanengan, Llanfor, Llangwnadl, Llaniestyn, Llanllechid, Llannor, Llanwnda, Llwyn Hudol, Machroes, Maes Tryfan, Minffordd, Minffordd (Bangor), Mynydd Llandygai, Nebo, Pantglas,</p>

Categori	Aneddiadau
	Pencaenewydd, Penmorfa, Penrhos, Pentir, Pentrefelin, Pistyll, Pontllyfni, Rhiw, Rhos Isaf, Rhoshirwaun, Rhoslan, Rhydyclafdy, Saron (Llanwnda), Sling, Swan, Tai'n Lon, Talwaenydd, Talybont, Tan y Coed, Treborth, Ty'n Lon, Ty'n y Lon, Waun (Penisarwaun).

7.4.2 Mae'r cynllun yn dangos dosbarthiad yr aneddleoedd yma o fewn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd.

Map 11 – Dosbarthiad Aneddleoedd o fewn y CDLI ar y cyd



7.5 Y Math o Ddatblygiad

7.5.1 Cytunwyd bod dosbarthiad gofodol cyffredinol twf tai i'r dyfodol yn 55% ar gyfer Canolfan Is-ranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol; 20% mewn Canolfannau Gwasanaeth Lleol; 25% mewn Pentrefi, Clystyrau a Chefn Gwlad (gweler Pennod 1). Mae'r tabl isod yn egluro'r dosbarthiad yn seiliedig ar y categorïau a nodir yn y papur hwn; mae hefyd yn darparu disgrifiad

cyffredinol o'r math o ddatblygiad a ddisgwylid o fewn categori anheddiad o'r fath.

Tabl 12 – Dosbarthiad Gofodol Twf

Dosbarthiad Gofodol Cyffredinol	Categori Aneddiadau	Y Math o Ddatblygiad a Ddisgwylir
55%	Canolfan Is-ranbarthol	Dros gyfnod y Cynllun, bydd cyfran uwch o'r datblygiadau newydd a fynir yn ardal y Cynllun yn digwydd o fewn, ac ar gyrion Bangor drwy gwblhau, ymrwymadau, datblygiadau ar hap a dyraniadau newydd. Bydd ei ffin aneddiadau'n cael ei diwygio i adlewyrchu'r datblygiadau arfaethedig. Bydd y Ganolfan yn darparu ar gyfer cyfuniad o dai'r farchnad agored a fforddiadwy.
	Canolfannau Gwasanaeth Trefol	Dros gyfnod y Cynllun bydd cyfran uwch o'r datblygiadau sydd eu hangen yn ardal y Cynllun yn cael eu cyfeirio at y Canolfannau hyn. Bydd y mwyafrif o ddatblygiadau newydd yn digwydd o fewn, ac ar gyrion y Canolfannau Gwasanaeth Trefol a chyflawnir datblygiadau drwy gwblhau, ymrwymadau, datblygiadau ar hap a dyraniadau newydd. Bydd eu ffiniau aneddiadau'n cael ei diwygio i adlewyrchu'r datblygiadau arfaethedig. Bydd y Canolfannau'n darparu ar gyfer cyfuniad o dai'r farchnad agored a fforddiadwy.
20%	Canolfannau Gwasanaeth Lleol	Dros gyfnod y Cynllun, cyfeirir twf o ran tai tuag at dir o fewn neu ar gyrion y Canolfannau Gwasanaeth Lleol hyn. Cyflawnir datblygu drwy gwblhau, ymrwymadau, datblygiadau ar hap a, lle y bo'n briodol, dyraniadau newydd. Bydd eu ffiniau aneddiadau'n cael eu diwygio i adlewyrchu'r datblygiadau arfaethedig. Bydd y Canolfannau'n darparu ar gyfer cyfuniad o dai'r farchnad agored a fforddiadwy, gan gynnwys anghenion lleol.
25%	Pentrefi	Dros gyfnod y Cynllun cynhwysir lefel uwch o dwf o ran tai o fewn y Pentrefi Gwasanaeth. Mewn Pentrefi Gwasanaeth, cyflawnir datblygu drwy gwblhau, ymrwymadau, datblygiadau ar hap a, lle y bo'n briodol, dyraniadau newydd ar gyfer naill ai cyfuniad o dai'r farchnad agored ynghyd â thai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol.

Dosbarthiad Gofodol Cyffredinol	Categori Aneddiadau	Y Math o Ddatblygiad a Ddisgwylir
		<p>I adlewyrchu cymeriad Pentrefi Lleol / Arfordirol / Gwledig, cyfyngir datblygiadau tai i raddfa a math sy'n cyd-fynd ag angen cymunedol am dai. Ceir datblygu ar lefel fwy cyfyngedig yn y Pentrefi hyn i ddiogelu eu cymeriad, i gefnogi angen cymunedol am dai neu am dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol. Ni ddyrannir safleoedd tai ar y farchnad agored na safleoedd cyflogaeth ar gyfer y mathau hyn o Bentrefi, ond bydd polisiau manwl yn seiliedig ar feini prawf yn hyrwyddo datblygiadau o'r maint iawn.</p>
	Clystyrau	<p>Dros gyfnod y Cynllun, ni fydd unrhyw ddyraniadau ar gyfer datblygu o fewn y Clystyrau a enwyd. Caniateir unedau tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol ar leiniau mewnlenni neu estyniad mewn lleoliadau derbyniol a chynaliadwy.</p>

8. Lefel Twf Disgwyliedig Aneddeoedd

8.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r gwaith ychwanegol sydd wedi ei wneud ar yr Hierarchaeth Aneddiadau fel mae lefel twf aneddeoedd unigol yn cael ei hadnabod yn y Fersiwn Adnau. Mae'n amlygu'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau a ystyriwyd, Ardaloedd Cysylltedd a sut y dylid dosbarthu twf i'r dyfodol os na all anheddiad haen uchel gynnwys y lefel twf gyffredinol a ragwelir.

8.2 Cyfleoedd a Chyfyngiadau

8.2.1 Mae Pennod 7 yn amlinellu'r gwaith asesu ar gyfer nodi categorïau cyffredinol aneddiadau o fewn yr ardal. Fodd bynnag, hyd yn oed o fewn categori unigol, gall fod gwahaniaethau amlwg rhwng aneddiadau yn nhermau'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau a wynebir ganddynt. Mae'r tabl isod yn amlygu'r cyfleoedd allweddol a'r cyfyngiadau a wynebir gan aneddiadau o fewn yr ardal (ni ydynt mewn unrhyw drefn arbennig). Bydd y ffactorau hyn yn pennu union lefel y twf y gall aneddiadau unigol ei chyflawni yn ogystal â'r math o ddatblygiadau.

Tabl 13 – Cyfleoedd a Chyfyngiadau yn yr Ardal

Mater Allweddol	Effaith ar Aneddiadau
Cartrefi Gwyliau / Ail Gartrefi	Mae canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn cadarnhau ymhellach poblogrwydd yr ardal ar gyfer tai gwyliau / ail gartrefi. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos aneddiadau penodol, a chanddynt lleoliad arfordirol yn bennaf. Roedd hyn yn un o'r dangosyddion a ddefnyddiwyd ar gyfer adnabod ardaloedd cymwysedig ar gyfer defnyddio Polisi Tai Marchnad Leol TAI5. Gweler Papur Testun 17 Tai Marchnad Leol.
Dynodiadau Amgylcheddol	Gall hyn gael effaith uniongyrchol ar anheddiad e.e. gall lleoliad anheddiad o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ddylanwadu ar raddfa datblygiad; dynodir rhannau o Gaernarfon a Biwmares yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd, sy'n golygu bod rhaid rheoli datblygiadau'n gaeth er mwyn cynnal a gwella eu nodweddion arbennig, neu gall dynodiad amgylcheddol gael effaith anuniongyrchol ar gapasiti anheddiad i dderbyn datblygiadau, e.e. mae cyrsiau dŵr sy'n rhedeg drwy Langefni yn bwydo i mewn i safle a ddynodwyd yn rhyngwladol. Golyga'r nifer eang o ddynodiadau amgylcheddol trwy holl ardal y Cynllun bod yn rhaid sicrhau nad yw cynigion datblygu yn cael eu hwyluso mewn lleoliadau ble mae'r fethodoleg asesiad safleoedd posib, Asesiad Cynaliadwyedd neu'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn asesu iddynt gael effaith arwyddocaol ar amcanion y dynodiad. Mewn lleoliadau eraill dylai cynigion datblygu roi ystyriaeth i'r anghenion o fewn polisiâu'r Cynllun yn ogystal â Pholisiâu Cynllunio Cenedlaethol a deddfwriaeth y cyfeirir atynt yn rhan 7.5 'Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig' y Cynllun.
Perygl o Lifogydd	Mae gan rai aneddiadau ardaloedd helaeth sydd mewn perygl o lifogydd e.e. Porthmadog, Pwllheli. Mae rhannau o

Mater Allweddol	Effaith ar Aneddiadau
	<p>aneddiadau eraill mewn perygl o lifogydd o afonydd a nentydd yn bennaf ond, mewn rhai ardaloedd, o gynnydd yn lefelau'r môr.</p> <p>Yng ngolau Polisi ac arweiniad Cenedlaethol bydd rhaid ystyried p'un a all safleoedd posibl y tu allan i'r ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ond dal o fewn yr aneddiadau sydd mewn perygl gynnwys y twf a ragwelir. Os yw'r perygl o lifogydd yn atal anheddiad rhag mynd i'r afael â'r holl dwf a ragwelir yna bydd rhaid archwilio safleoedd eraill o fewn aneddiadau eraill.</p> <p>Yn unol â Pholisi Cenedlaethol mae'r Cynllun wedi osgoi dynodi safleoedd tai ar ardaloedd sydd wedi eu hadnabod fel perygl o lifogydd C1 neu C2. Gweler Papur Testun 1 'Asesiad Safleoedd Posib' ar gyfer y fethodoleg o ymdrin â safleoedd mewn ardal perygl o lifogydd.</p>
<p>Sectorau Cyflogaeth</p> <p>Twf</p>	<p>Mae Adolygiad Tir Cyflogaeth a wnaed fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y CDLI ar y Cyd yn nodi sectorau twf posibl dros gyfnod y cynllun yn ogystal â faint o dir cyflogaeth sydd ei angen i fodloni'r galw hwn. Gweler Papur Cefndir 'Asesiad Tir Cyflogaeth' (2012).</p> <p>Mewn ymgynghoriad ag Unedau Datblygu Economaidd y ddau Gyngor adnabuwyd lleoliadau cynaliadwy i sicrhau bod digon o dir yn cael ei ddiogelu neu ei ddynodi yn yr ardal gywir i gyfarch y twf disgwylidig yma.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi saith Ardal Fenter ledled Cymru. Ardaloedd daearyddol yw'r Ardaloedd Menter, ac maent yn cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n ehangu drwy ddarparu isadeiledd busnes o'r radd flaenaf a chymhellion pendant. Mae un ardal o fewn ardal y cynllun ar Ynys Môn tra bod un arall ym Mharc Eryri.</p> <p>Mae'r penderfyniad i roi statws Ardal Fenter i Ynys Môn yn ategu'r Rhaglen Ynys Ynni bresennol a sefydlwyd i ddenu swyddi sgiliau lefel uchel i'r ardal yn sgil buddsoddiadau mawr ym maes ynni a sefydlu'r ynys fel canolfan ragoriaeth fyd-enwog o ran cynhyrchu ynni carbon isel. Mae gwaith wedi cael ei gomisiynu i ddatblygu prif gynllun ar gyfer y safleoedd strategol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phrifysgolion Bangor ac Aberystwyth i ddatblygu achos busnes ar gyfer Parc Gwyddonol Menai yng Ngaerwen.</p> <p>Mae dau safle yn Ardal y Parc Cenedlaethol - mae gan safle Trawsfynydd isadeiledd ynni eithriadol, ac mae gan safle Maes Awyr Llanbedr y potensial i gynyddu gallu Cymru o ran Systemau Awyrennau Di-griw (UAS) yn sylweddol. Mae Asesiad Opsiynau Strategol wedi cael ei gomisiynu ar gyfer safle Trawsfynydd ac mae cytundeb ar gyfer creu prif gynllun ar gyfer safle Maes Awyr Llanbedr.</p> <p>Mae polisiâu cyflogaeth yn rhan 7.3 'Economi ac Adfywio' y Cynllun yn gwarchod safleoedd ac unedau presennol a</p>

Mater Allweddol	Effaith ar Aneddiadau
	<p>dynodiadau newydd ar gyfer defnydd cyflogaeth. Mae mwyafrif y Prif Safleoedd a'r Safleoedd Eilaidd wedi eu lleoli yn yr aneddeleoedd mwyaf o fewn ardal y Cynllun. Yn ogystal mae gan fwyaf yr aneddeleoedd hyn ddynodiadau tai i hybu'r amcan o leihau'r angen i deithio am waith.</p>
Isadeiledd	<p>Nodi'r ardaloedd hynny a chanddynt gapasiti sbâr o ran isadeiledd ynghyd â'r rheiny sydd angen buddsoddiad. Dylid ystyried dylanwadu ar ddarparwyr isadeiledd i sicrhau y lleolir twf yn y lleoliad mwyaf cynaliadwy.</p> <p>Cynhaliwyd trafodaethau pellach gyda darparwyr gwasanaethau i sicrhau y gellir cyflawni dyraniadau'r cynllun yn unol â'u cynlluniau i wella isadeiledd.</p> <p>Mae proses yr Asesiad Safleoedd Posib, gweler Papur Testun 1, yn gofyn am sylwadau gan ddarparwyr isadeiledd ar gyfer capasiti presennol a'u hanghenion yn y dyfodol. Mae Papur Testun 13 'Isadeiledd Cymunedol' yn nodi gwybodaeth waelodlin ar gyfer cynlluniau a strategaethau nifer o ddarparwyr isadeiledd. Fodd bynnag oherwydd ystyriaethau cynaliadwyedd a phrinder opsiynau teimlir ei bod yn briodol mewn rhai achosion bod y Cynllun yn dylanwadu ar raglenni gwariant isadeiledd i sicrhau bod twf yn digwydd yn y llefydd priodol. Er enghraifft, deallir bod Dŵr Cymru yn archwilio cynlluniau datblygu er mwyn hysbysu ei chynllun rheoli asedau.</p>
Tir Amaethyddol o Ansawdd Uchel	<p>Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn mynnu bod awdurdodau'n gwarchod y tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg. Gall Llywodraeth Cymru wrthwynebu i gollu tir amaethyddol o ansawdd uchel onid oes cyfiawnhad digonol sy'n golygu bod rhaid ei gollu.</p> <p>Cafodd hyn ei ystyried fel rhan o'r broses asesu Safleoedd Posib (gweler Papur Testun 1) ac os oedd safleoedd amgen ar gael cafodd y rhain eu dewis yn hytrach na safleoedd o dir amaethyddol o ansawdd uchel.</p>
Anghenion Tai Pobl Hŷn	<p>Bydd cyfran sylweddol o'r cynnydd a ragwelir yn y dyfodol o ran aelwydydd yn bobl sydd dros 65, felly bydd angen darpariaeth o dai addas ar gyfer pobl hŷn, yn enwedig o fewn cynlluniau datblygu mwy.</p> <p>Yn unol â chynlluniau Strategaeth Tai a Strategaeth Llety Pobl Hŷn presennol ac arfaethedig y ddau Gyngor, mae polisi TAI1 yn rhan 7.4 y Cynllun yn ceisio sicrhau bod unrhyw ddatblygiad tai yn darparu cymysgedd priodol o dai. Mae polisi TAI4 yn cefnogi datblygiadau ar gyfer Cartrefi Gofal Preswyl, Tai Gofal Ychwanegol neu Llety Gofal Arbenigol ar Gyfer yr Henoed o fewn y prif ganolfannau yn y Cynllun neu ar safleoedd tir llwyd sydd â chysylltiadau agos â'r Ganolfan.</p>
Llety i Fyfyrrwyr	<p>Aseswyd strategaeth y Brifysgol i'r dyfodol i sicrhau y gellir ystyried a chynnwys effaith llety i fyfyrwyr, yn benodol ar Fangor, o fewn y cynllun.</p> <p>Adolygwyd rhaglen rheoli ystadau'r Brifysgol ar gyfer y dyfodol i ddarganfod eu hanghenion. Mae Polisi TAI2 yn ceisio rheoli Tai Amlfeddiannaeth trwy ardal y Cynllun ond</p>

Mater Allweddol	Effaith ar Aneddiadau
	<p>yn benodol ym Mangor er mwyn rheoli ei heffaith ar ardaloedd preswyl ac i gynnal neu wella'r stoc o dai sydd ddim yn cael ei rhannu. Yn ogystal mae Polisi TAL6 yn cefnogi llety pwrpasol i fyfyrwyr ac yn adnabod ardal chwilio ym Mangor. Gall darparu llety pwrpasol i fyfyrwyr ryddhau rhai fflatiau hunangynhaliol neu dai amlfeddiannaeth yn ôl i fod yn gartrefi teuluol.</p>
<p>Yr Iaith Gymraeg a Chymeriad Diwylliannol</p>	<p>Mae Papur Testun 10 'Iaith Gymraeg a Diwylliant' yn rhoi gwybodaeth gwaelodlin cyn cyfrifiad 2011 ar Faterion Allweddol y dylai'r Cynllun eu hystyried. Mae Papurau Testun 10A a 10B yn rhoi Proffil Ystadegol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn yn eu trefn, gan gynnwys gwybodaeth ddiweddar o Gyfrifiad 2011 a ffynonellau eraill. Fe wnaeth Cynghorau ar y cyd â'r Parc Cenedlaethol gomisiynu Astudiaeth Tai ac Iaith, a wnaeth adnabod gwybodaeth ddiddorol am y berthynas gymhleth sydd rhwng yr iaith, tai, cyflogaeth, addysg a hamdden. Yn ogystal mae Asesiad Effaith Ieithyddol a'r Asesiad Cynaliadwyedd wedi asesu effaith lefel twf aneddeleoedd ar yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant. Gweler y papurau yma ar gyfer esboniad o'r broses i asesu capasiti aneddeleoedd unigol i ymdopi â thwf yn y dyfodol.</p>
<p>Addysg</p>	<p>Wedi gweithio'n agos â'r ddau Awdurdod Addysg Lleol i nodi effaith gwahanol lefelau twf ar yr anghenion am ddarpariaeth ysgol mewn gwahanol ddalgylchoedd. Fodd bynnag mae Rhaglen Moderneiddio Ysgolion o fewn y ddau Awdurdod wedi ei rhaglennu ar gyfer cyfnod hwy na dyddiad mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd. Yng ngoleuni hyn nid yw holl gynlluniau ad-drefnu'r Awdurdodau wedi cael eu cadarnhau hyd yma. Fe fydd strategaeth twf y Cynllun yn bwydo i'r broses o unrhyw gynlluniau adolygu ysgolion o fewn ardal y Cynllun.</p>
<p>Astudiaeth Trefol Capasiti</p>	<p>Ymgwymerwyd â gwaith ar werthuso tir datblygu posibl o fewn y Ganolfan Isranbarthol, Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Chanolfannau Gwasanaeth Lleol. Mae hyn yn darparu gwybodaeth am y raddfa ddatblygu bosibl y gellid ei chynnwys o fewn ffurf adeiledig bresennol yr aneddiadau hyn ac felly beth yw'r anghenion tai trwy ddynodi safleoedd. Mae'r gwaith yma yn adnabod cyfleoedd ar hap a nifer o dai gwag fel gall elfen o'r rhain fodloni rhan o anghenion twf y ganolfan. Gweler Papur Testun 6 ar yr Astudiaeth Capasiti Trefol. Mae'n ystyried y cyfraniad mae safleoedd ar hap wedi ei wneud yn y gorffennol er mwyn rhagfynegi cyfleoedd twf i'r dyfodol yn gywir. Ceir ystyriaeth i Strategaeth Tai Gwag y ddau Gyngor. Os yw cyfleoedd ar hap yn parhau ar yr un raddfa mae cyfle i gyfrannu at darged tai y Cynllun. Fodd bynnag, mae'n bosib gall nifer yr unedau trwy safleoedd ar hap leihau wrth i'r cyflenwad o safleoedd datblygu posib redeg allan. Mae lwfans llithriad o 10% wedi ei adeiladu i darged tai y Cynllun, yn rhannol i ymdrin â lleihad mewn ail ddefnyddio eiddo a safleoedd. Yn</p>

Mater Allweddol	Effaith ar Aneddiadau
	<p>ogystal credir bod angen bod yn wylriadwrus rhag orddibynnu ar safleoedd ar hap. Felly, ar gyfer pwrrpas y Cynllun, mae amcangyfrif mwy ceidwadol ar gyfer cyfleoedd ar hap wedi ei wneud i fwyafrif y canolfannau, ble mae 75% o ffigur y Capasiti Trefol wedi ei ddefnyddio i gymryd ystyriaeth bellach o lithriad posib yn y categori yma. Fodd bynnag ar gyfer canolfannau sydd â lefel uchel o gyfyngiadau mae canran uwch o ffigur y Capasiti Trefol wedi cael ei defnyddio yn erbyn ffigur twf yr anheddle. Bydd fframwaith monitro y Cynllun yn asesu llwyddiant neu beidio y dull yma.</p>
Manwerthu	<p>Ymgwymerwyd ag astudiaeth fanwerthu i asesu'r angen am fwy o arwynebedd llawr manwerthu mewn 25 canolfan dros gyfnod y Cynllun hyd at 2026. Mae'r astudiaeth hefyd yn asesu'r cynnig manwerthu presennol a rôl manwerthu'r ganolfan o fewn yr ardal.</p> <p>Mae'r Ganolfan Fanwerthu Isranbarthol hefyd wedi ei hadnabod fel y Ganolfan Isranbarthol o fewn yr hierarchaeth aneddeleoedd. Mae'r Canolfannau Manwerthu Trefol i gyd yn Ganolfannau Gwasanaethol Trefol yn y strategaeth hierarchaeth aneddeleoedd; tra bod pob un o'r Canolfannau Manwerthu Lleol unai yn Ganolfannau Gwasanaeth Trefol neu Leol yn y strategaeth hierarchaeth. Golyga hyn fod yna gysylltiad agos rhwng swyddogaeth manwerthu a thai'r canolfannau o fewn ardal y Cynllun. Gweler Papur Cefndir 'Arolwg Manwerthu Gwynedd a Môn' (2013) ar gyfer rôl manwerthu'r canolfannau.</p>
Cludiant	<p>Wedi gweithio gydag adrannau Priffyrdd y ddau awdurdod yn ogystal ag adolygu strategaethau trafndiaeth i nodi unrhyw welliannau o ran priffyrdd all effeithio'r ardal.</p> <p>Mae cysylltiadau trafndiaeth â chanolfannau haen uwch yn ystyriaeth wrth gategoreiddio aneddeleoedd yn yr hierarchaeth. Gweler Papur Testun 15 Trafndiaeth.</p>
Banc Tir Tai Presennol	<p>Mae nifer o safleoedd tai sydd â chaniatâd cynllunio yn Ebrill 2014 a fydd yn cyfrannu at anghenion tai'r Cynllun. Gwnaed adolygiad o'r safleoedd yma i adnabod pa rai sy'n debygol o gael eu hadeiladu o fewn cyfnod y Cynllun. Mae Atodiad 5 y Cynllun yn adnabod nifer yr unedau ym mhob cyngor cymuned yn ogystal â faint sydd yn annhebygol o gael eu cwblhau. Yn Ebrill 2014 roedd y banc tir sy'n debygol o gael ei gwblhau yn cyfrif tuag at 36% o anghenion y Cynllun gyda 12.3% pellach o'r anghenion wedi cael eu hadeiladu rhwng 2011 a 2014. Golyga hyn bod gan bron i hanner anghenion y Cynllun ganiatâd cynllunio neu eu bod wedi'u hadeiladu yn nhair blynedd gyntaf y Cynllun.</p>

8.3 Ardaloedd Cysylltedd

- 8.3.1 Mae trafodaethau mewnol o fewn y Cyngor wedi arwain i sefyllfa, os nad yw canolfan lefel uwch h.y. Canolfan Isranbarthol neu Ganolfannau Gwasanaeth

Trefol yn gallu cyflawni'r lefelau twf disgwylidig, gellir cwrdd â'r diffyg mewn Canolfannau Gwasanaeth Lleol neu Bentrefi Gwasanaeth gerllaw a chanddynt gyswilt gweithredol cydnabyddedig â naill ai'r Ganolfan Isranbarthol neu'r Ganolfan Wasanaeth Trefol. Os na all y rhain ymdopi ag unrhyw lefel diffyg yna fe ystyrir unrhyw Bentrefi o fewn dalgylich yr aneddleoedd.

8.3.2 Mae Pennod 3 wedi adolygu ardaloedd cysylltedd o fewn yr ardal ac mae'r tablau a ganlyn yn adnabod ardaloedd cysylltedd manwl ar gyfer y Ganolfan Is-ranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol.

8.3.3 Y cam cyntaf oedd asesu ardal dalgylich ar sail pellteroedd rhwng y canolfannau yma efo byffer o 1km bob ochr i'r pellter canolig er mwyn adnabod ardaloedd sydd yn disgyn o fewn mwy na 1 dalgylich dylanwad canolfan haen uwch. Ar gyfer pwrpas y cam yma cafodd Ynys Môn ac ardal Cynllunio Gwynedd eu trin ar wahân. Mae'r tabl isod yn amlinellu pa Ganolfannau Gwasanaeth Lleol neu Bentrefi Gwasanaeth sydd yn disgyn yn agosach i ganolfan haen uwch benodol a pha rai sydd rhwng dwy neu fwy o'r canolfannau hyn. Ceir mapiau yn Atodiad 3 er mwyn gweld canlyniad gweledol y cam yma.

Tabl 14 – Dalgylich ar Sail Pellteroedd

Canolfan	Canolfannau Gwasanaeth o fewn y Dalgylich	Canolfannau Gwasanaeth rhwng Canolfannau
Bangor	Bethesda, Deiniolen, Rachub	Llanberis, Llanrug, Bethel
Caernarfon	Penygroes, Bontnewydd	Llanberis, Llanrug, Bethel
Pwllheli	Abersoch, Nefyn, Botwnnog, Chwilog, Y Ffor	-
Porthmadog	Criccieth, Penrhyndeudraeth, Tremadog.	-
Blaenau Ffestiniog	-	-
Caerdybi	Y Fali, Bodedern	Rhosneigr
Llangefni	Porthaethwy, Llanfairpwll, Biwmares, Pentraeth, Gaerwen, Niwbwrch, Gwalchmai	Benllech, Rhosneigr, Llannerchymedd
Amlwch	Cemaes	Benllech, Llannerchymedd

8.3.4 Nid yw'r ardaloedd dylanwad yma y ystyried cyfyngiadau topograffeg o fewn yr ardal heblaw am y Fenai. Yn sgil hyn ac i roi ystyriaeth i'r ffactorau a amlinellir ym mhennod 3, crëwyd mapiau oedd yn adnabod faint o'r ffactorau a ganlyn sydd i'w cael yn yr ardal o amgylch y Ganolfan Is-ranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. I adlewyrchu rôl Is-Ranbarthol Bangor fe ystyriwyd ei dylanwad ar Ynys Môn hefyd:

- Hwb Cynllun Gofodol Cymru;
- Ardal Teithio i'r Gwaith;
- Ardal Marchnad Tai;
- Dalgylich Ysgolion Uwchradd.

8.3.5 Mae'r tabl isod yn dangos pa Ganolfannau Gwasanaeth Lleol neu Bentreffi Gwasanaeth sydd â 2 neu fwy o ffactorau ymgysylltu ar gyfer pob Canolfan Gwasanaeth Trefol neu'r Ganolfan Isranbarthol. Ceir mapiau yn Atodiad 3 er mwyn gweld canlyniad gweledol y cam yma:

Tabl 15 - Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth sydd â Chysylltiad i Ganolfan Haen Uwch

Prif Ganolfan	Nifer y Ffactorau Ymgysylltu		
	4	3	2
Gwynedd			
Bangor	-	Menai Bridge, Llanfairpwll, Gaerwen, Pentraeth, Niwbwrch	Bethesda, Bethel, Llanrug Beaumaris, Benllech, Rachub, Deiniolen
Caernarfon		Bethel, Bontnewydd, Llanrug.	Penygroes, Llanberis, Deiniolen
Pwllheli	-	Nefyn, Chwiolg, Y Ffor	Abersoch, Botwnnog
Porthmadog	Criccieth, Tremadog	Penrhyndeudraeth.	Chwilog.
Blaenau Ffestiniog	-	-	Penrhyndeudraeth, Criccieth, Tremadog
Ynys Môn			
Amlwch	-	Cemaes	Benllech; Llannerchymedd
Llangefni	Gaerwen	Porthaethwy; Llanfairpwll; Niwbwrch.	Biwmares, Benllech; Pentraeth.
Caergybi		Y Fali; Rhosneigr.	Bodedern

8.3.6 Os na all un o'r canolfannau haen uwch (Canolfan Is-Ranbarthol neu Canolfannau Gwasanaeth Trefol) ymdopi â'i lefel twf disgwylidig yna bydd yr aneddleoedd a adnabyddir uchod sydd â ffactorau ymgysylltu o 2 neu fwy yn cael eu defnyddio i adnabod Canolfannau Gwasanaethol eraill i ymdopi â'r diffyg yma yn gyntaf Canolfannau Gwasanaeth Lleol ac yna Pentrefi Gwasanaethol.

8.4 Dosbarthiad Twf i'r Dyfodol

8.4.1 Mae dosbarthiad gofodol cyffredinol y twf yn seiliedig ar y categori o aneddiadau sydd wedi'i amlinellu yn nhabl 12 o fewn Pennod 7. Ystyrir sut y dosbarthir y lefel hon o dwf rhwng aneddiadau unigol yn fwy manwl isod.

8.4.2 Ers yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y hoff strategaeth mae rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd 2011 Llywodraeth Cymru wedi cael ei gyhoeddi. Mae Papur Testun 4A 'Disgrifio'r Twf Tai a Gofodol' (2014) wedi adolygu ffactorau eraill sy'n effeithio ar y farchnad dai yn ogystal â rhagamcanion 2011 er mwyn cyfiawnhau ffigur twf y Cynllun.

- 8.4.3 Y ffigwr twf diwygiedig ar gyfer tai i'r Cynllun yw 7,184 o unedau a chyda lwfans llithriad ychwanegol o 10% yn rhoi cyfanswm angen o 7,902. Mae hyn yn golygu 3,817 o unedau tai yn Ynys Môn a 4,084 ar gyfer Awdurdod Ardal Cynllunio Gwynedd.
- 8.4.4 Dosbarthiad gofodol y twf yw hyd at 55% o'r galw am dir ar gyfer tai'n cael ei gyfeirio i Fangor y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaethau Trefol, o leiaf 20% i'r Canolfannau Gwasanaethau Lleol a dim mwy na 25% mewn Pentrefi, Clystyrau a'r cefn gwlad.
- 8.4.5 Caiff hyn ei ddsbarthu rhwng yr aneddleoedd ar sail sgôr yr anheddle fel yr amlinellir yn nhabl 9 yr adroddiad yma, ond gyda lwfans uwch i Fangor i adlewyrchu ei rôl Is-ranbarthol (gweler Papur Testun 4A am fanylion) a lwfans o 2 uned yr un i bob Clwstr.
- 8.4.6 Ar sail unedau wedi eu cwblhau hyd yma (2011 i 2014), y banc tir presennol (y rhai sy'n debygol o gael eu cwblhau), twf posib a adnabyddir yn yr Astudiaeth Capasiti Trefol a tir ychwanegol wedi ei ddynodi, cafwyd asesiad i weld a allai'r anheddle ymdopi gyda'i lefel twf ddisgwyliedig. Mewn achosion ble na all canolfan haen uwch h.y. Canolfan Is-ranbarthol neu Canolfannau Gwasanaeth Trefol ymdopi â'i lefel twf disgwyliedig yna asesiir gallu Canolfannau Gwasanaeth Lleol o fewn ei dalgylch i wneud hyn yna asesu Pentrefi Gwasanaethol o fewn y dalgylch.
- 8.4.7 Mae'r tabl isod yn amlinellu'r lefel twf ddisgwyliedig o fewn y Canolfan Is-ranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol wedi ystyried canlyniad yr astudiaeth Capasiti Trefol a chwblhau'r asesiadau effaith gwahanol:

Tabl 16 – Lefel Twf Ddisgwyliedig Canolfannau Is-ranbarthol a Gwasanaeth Trefol

Anheddle	Lefel Twf Ddisgwyliedig	Cyflawni Lefel Twf	Sylwadau
Gwynedd			
Bangor	969	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ddinas gyda 4 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig. Gyda pholisi yn cefnogi llety myfyrwyr parhaol disgwylir y bydd elfen o tai amlfeddiannaeth yn dod yn ôl i'r stoc dai gyffredinol dros oes y Cynllun.
Caernarfon	415	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Dref gyda 2 ddynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Pwllheli	323	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Dref gyda 3 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Porthmadog	301	✗ (-173)	Mae rhan helaeth o'r Dref yn cael ei heffeithio gyda pherygl o lifogydd. Mae canran uwch o unedau o'r Capasiti Trefol wedi ei

Anheddle	Lefel Twf Ddisgwyliedig	Cyflawni Lefel Twf	Sylwadau
			chynnwys i sicrhau fod cymaint o gyfleoedd â phosib wedi eu cynnwys yn ffigwr ar hap y Dref. Mae hyn yn golygu bod rhaid asesu gallu Canolfannau Gwasanaeth Lleol o fewn ei ddalgylch, Penrhyndeudraeth a Criccieth, i ymdopi gyda'r lefel twf ychwanegol yma.
Blaenau Ffestiniog	298	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Dref gyda 2 ddynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig. Disgwyli'r bydd strategaethau adfywio yn hwyluso canran uwch o dai trwy ail-ddefnyddio eiddo presennol.
Ynys Môn			
Caergybi	833	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Dref gyda 3 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Llangefni	673	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Dref gyda 6 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Amlwch	533	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Dref efo 5 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.

- Mae'r cyfeiriad tuag at ddynodiadau tai uchod ar gyfer rhai nad oedd ganddynt ganiatâd cynllunio yn Ebrill 2014. Mae gan fwyafrif y canolfannau ddynodiadau tai ychwanegol oedd efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2014.

8.4.8 Mae'r tabl isod yn amlinellu'r lefel twf ddisgwyliedig o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol:

Tabl 17 – Lefel Twf Ddisgwyliedig Canolfannau Gwasanaeth Lleol

Anheddle	Lefel Twf Ddisgwyliedig	Cyflawni Lefel Twf	Sylwadau
Gwynedd			
Tywyn	103	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Bethesda	99	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.

Anheddle	Lefel Twf Ddisgwyliedig	Cyflawni Lefel Twf	Sylwadau
Abermaw	91	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Penygroes	89	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan efo 1 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Nefyn	73	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan efo 2 ddynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Llanberis	70	✗ (-5)	Hyd yn oed gyda chanran uwch o ffigwr Capasiti Trefol mae peth diffyg (5 uned) o fewn y Ganolfan. Mae hyn yn golygu asesiad o allu Canolfannau Gwasanaeth Lleol o fewn y dalgylch, Deiniolen, i ymdopi gyda'r diffyg yma.
Criccieth	68	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan gyda 1 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Penrhyndeudraeth	68	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan gyda 3 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Abersoch	67	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Llanrug	61	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Ynys Môn			
Porthaethwy	115	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan gyda 1 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Biwmares	96	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Benllech	90	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan

Anheddle	Lefel Twf Ddisgwyliedig	Cyflawni Lefel Twf	Sylwadau
			gyda 1 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Y Fali	84	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan gyda 1 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Llanfairpwll	82	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan gyda 1 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Cemaes	81	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan gyda 1 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Rhosneigr	70	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Gaerwen	58	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Bodedern	57	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan gyda 1 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Pentraeth	57	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Ganolfan i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.

- Mae'r cyfeiriad tuag at ddynodiadau tai uchod ar gyfer rhai nad oedd ganddynt ganiatâd cynllunio yn Ebrill 2014. Bydd gan rai o'r canolfannau ddynodiadau tai ychwanegol oedd efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2014.

8.4.9 Mae'r tabl isod yn amlinellu'r lefel twf ddisgwyliedig o fewn y Pentrefi Gwasanaethol:

Tabl 18 – Lefel Twf Ddisgwyliedig Pentrefi Gwasanaethol

Anheddle	Lefel Twf Ddisgwyliedig	Cyflawni Lefel Twf	Sylwadau
Gwynedd			
Bethel	40	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Pentref gyda 1 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf

Anheddle	Lefel Twf Ddisgwyliedig	Cyflawni Lefel Twf	Sylwadau
			ddisgwyliedig.
Bontnewydd	40	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Pentref gyda 1 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Botwnnog	40	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Pentref gyda 2 ddynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Chwillog	40	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Pentref gyda 2 ddynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Deiniolen	40	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Pentref gyda 1 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Rachub	40	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Pentref gyda 1 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Tremadog	40	✗ (-28)	Mae rhan helaeth o'r Pentref yn cael ei heffeithio gan berygl o lifogydd. Mae hyn yn golygu bod rhaid asesu capasiti Canolfannau Gwasanaeth Lleol o fewn ei dalgylch, Penrhyndeudraeth a Criccieth, i ymdopi gyda'r lefel twf ychwanegol yma.
Y Ffor	40	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Pentref gyda 2 ddynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Ynys Môn			
Gwalchmai	40	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Pentref gyda 1 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Niwbwrch	40	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Pentref i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.
Llannerchymedd	40	✓	Cyfleoedd digonol yn bodoli o fewn y Pentref gyda 1 dynodiad tai newydd i gefnogi'r lefel twf ddisgwyliedig.

- Mae'r cyfeiriad tuag at ddynodiadau tai uchod ar gyfer rhai nad oedd ganddynt ganiatâd cynllunio yn Ebrill 2014. Mae gan rai o'r Pentrefi Gwasanaethol ddynodiadau tai ychwanegol oedd efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2014.

8.4.10 Mae'r tabl uchod yn adnabod yr aneddleoedd sydd am resymau gwahanol yn methu ymdopi gyda'u lefel twf ddisgwylidig. Yn unol â'r fethodoleg a amlinellir ym mharagraff 8.4.6 uchod fe ystyrir capasiti Canolfannau Gwasanaeth Lleol o fewn yr ardal dalgylch i ymdopi efo'r diffyg yma.

8.4.11 Mae'r tablau isod yn amlinellu'r ardaloedd o ddiffyg a adnabyddir uchod ac yn dilyn nifer o asesiadau h.y. canlyniadau'r Astudiaeth Capasiti Trefol, Aseiad Effaith Iaith Gymraeg, Aseiad Cynaliadwyedd, ystyrir os gellir bodloni hyn mewn Canolfannau eraill o fewn yr ardal dalgylch:

Tabl 19 – Diffyg Porthmadog / Tremadog

Anheddle	Lefel Twf Ddisgwylidig Newydd (yn Ymgorffori Rhan o Ddiffyg Porthmadog / Tremadog)	Cyflawni Lefel Twf	Aseiad Effaith Ieithyddol	Aseiad Cynaliadwyedd
Penrhyndeudraeth	152	✓	✓	✓
Cricieth	164	✓	✓	✓

Tabl 20 – Diffyg Llanberis

Anheddle	Lefel Twf Ddisgwylidig Newydd (yn Ymgorffori Diffyg Llanberis)	Cyflawni Lefel Twf	Aseiad Effaith Ieithyddol	Aseiad Cynaliadwyedd
Deiniolen	45	✓	✓	✓

8.4.12 Mae'r tabl isod yn amlinellu'r lefel twf ddisgwylidig o fewn y Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol:

Tabl 21: Lefel Twf Ddangosol Mewn Pentrefi

Anheddle (Ynys Môn)	Darpariaeth ar Hap	Anheddle (Gwynedd)	Darpariaeth ar Hap dangosol
1] Pentrefi Lleol			
Bethel	16	Abererch	9
Bodffordd	22	Brynrefail	7

Anheddle (Ynys Môn)	Darpariaeth ar Hap	Anheddle (Gwynedd)	Darpariaeth ar Hap dangosol
Bryngwran	25	Caeathro	7
Brynsiencyn	29	Carmel	12
Caergeiliog	20	Cwm y Glo	13
Dwyran	26	Dinas (Llanwnda)	8
Llandegfan	27	Dinas Dinlle	5
Llanddaniel Fab	23	Dolydd a Maen Coch	4
Llanfachraeth	27	Efailnewydd	8
Llanfaethlu	12	Garndolbenmaen	12
Llanfechell	24	Garreg-Llanfrothen	10
Llanfihangel yn Nhowyn	22	Groeslon	13
Llangaffo	19	Llandwrog	7
Llangristiolus	15	Llandygai	8
Llanrhyddlad	7	Llangybi	4
Pencarnisiog	11	Llanllyfni	9
Penysarn	28	Llanystumdwy	10
Rhosybol	24	Nantlle	6
Talwrn	20	Penisarwaun	8
Tregele	10	Pentref Uchaf	4
		Rhiwlas	9
		Rhosgadfan	9
		Rhostryfan	10
		Sarn Mellteyrn	11
		Talysarn	13
		Tregarth	13
		Trefor	13
		Tudweiliog	12
		Waunfawr	13
		Y Fron	6
2] Pentrefi Arfordirol / Gwledig			
Aberffraw	20	Aberdaron	13
Carreglefn	11	Borth y Gest	10
Pont Rhyd y Bont	17	Clynnog Fawr	10
Llanbedrgoch	11	Corris	14
Llanddona	20	Ederne	12
Llanfaelog	20	Fairbourne	0
Llangoed	27	Llanaelhaearn	15
Malltraeth	16	Llangian	4
Moelfre	32	Llanbedrog	16
Trearddur	32	Llithfaen	9
		Morfa Bychan	10
		Morfa Nefyn	15
		Mynytho	13

Anheddle Môn)	(Ynys	Darpariaeth ar Hap	Anheddle (Gwynedd)	Darpariaeth ar Hap dangosol
			Rhoshirwaun	6
			Sarn Bach	4
			Y Felinheli	19

8.4.13 Ar gyfer y Clystyrau, a enwir isod, bydd datblygiadau'n cael eu cyfyngu i uchafswm o 2 uned i bob Clwstwr dros gyfnod y Cynllun:

Ynys Môn

Bodorgan, Bro Iarddur (Trearddur), Bryn Du, Brynminceg (Old Llandegfan), Brynrefail, Brynteg, Bwlch Gwyn, Capel Coch, Capel Mawr, Capel Parc, Carmel, Cerrigman, Cichle, Haulfre (Llangoed), Elim, Glanrafon, Glyn Garth, Gorsaf Gaerwen, Hebron, Hendre Hywel (Pentraeth), Hermon, Llanddeusant, Llaneilian, Llanfaes, Llanfairynghornwy, Llangadwaladr, Llansadwrn, Llanynghenedl, Llynfaes, Marianglas, Mynydd Mechell, Nebo, Penygroes, Pen y Marian, Pengorffwysfa, Penlon, Penmon, Pentre Berw, Pentre Canol (Holyhead), Penygraigwen, Porth Llechhog (Bull Bay), Rhoscefnhir, Rhosmeirch, Rhostrehwfa, Bryn y Mor (Valley), Rhydwyn, Star, Traeth Coch (Red Wharf Bay), Trefor, Tyn Lon (Glan yr Afon), Tynyngogl

Gwynedd

Aberdesach, Aberllefenni, Aberpwl, Bethesda Bach, Bryncir, Bryncroes, Bryn Eglwys, Bwlchtocyn, Penrhos (Caeathro), Caerhun/Waen Wen, Capel Uchaf, Capel y Graig, Ceidio, Corris Uchaf, Crawia, Dinas (Llyn), Dinorwig, Friog, Gallt y Foel, Glasinfryn, Groeslon Waunfawr, Llanaber, Llandderfel, Llanengan, Llanfor, Llangwnadl, Llaniestyn, Llanllechid, Llannor, Llanwnda, Llwyn Hudol, Machroes, Maes Tryfan, Minffordd, Minffordd (Bangor), Mynydd Llandygai, Nebo, Pantglas, Pencaenewydd, Penmorfa, Penrhos, Pentir, Pentrefelin, Pistyll, Pontllyfni, Rhiw, Rhos Isaf, Rhoslan, Rhydyclafdy, Saron (Llanwnda), Sling, Swan, Tai'n Lon, Talwaenydd, Talybont, Tan y Coed, Treborth, Ty'n-lon, Ty'n y Lon, Waun (Penisarwaun).

ATODIAD 1 – Gwasanaethau a Aseswyd

A1.1 Cyflwyniad

A1.1 Mae'r atodiad hwn yn adolygu'r nifer o ffactorau / gwasanaethau / cyfleusterau (y cyfeirir atynt fel 'gwasanaethau' yng ngweddill yr atodiad hwn) a aseswyd wrth lunio hierarchaeth aneddiadau y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd). Y mae hefyd yn egluro'r ymresymiad y tu ôl i wahanol sgoriau a roddwyd ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau ynghyd â'r fethodoleg ar gyfer casglu gwybodaeth ynghylch gwasanaethau mewn gwahanol aneddiadau.

A1.2 Yr Ystod o Wasanaethau

A1.2.1 Roedd yr ymagwedd a ddefnyddiwyd ar gyfer categorio aneddiadau mewn awdurdodau cyfagos ac mewn Cynlluniau Datblygu blaenorol o fewn ardal y CDLI ar y Cyd yn seiliedig ar faint y boblogaeth, nifer o wasanaethau allweddol a mynediad i gludiant cyhoeddus.

A1.2.2 I sicrhau y rhoddwyd ystyriaeth i wahanol rolau canolfannau yn yr ardal leol, penderfynwyd y byddai ystod eang o wasanaethau yn rhan o'r asesiad. Rhoddwyd y rhain mewn 8 categori eang sef Demograffeg, Addysg, Iechyd, Hamdden, Manwerthu, Gwasanaethau, Cludiant a'r Economi ac maent yn cynnwys y gwasanaethau sy'n rhan o fynediad i wasanaethau yn Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

A1.3. Sgorio Gwasanaethau

A1.3.1 Ystyriwyd y byddai rhoi'r un sgôr ar gyfer bob gwasanaeth yn rhy syml ac y gallai arwain i broblemau o ran nodi amrywiaethau rhwng aneddiadau canolig a bach yn nhermau eu rôl yn yr ardal.

A1.3.2 Dylai nodi gwasanaethau allweddol a rhoi mwy o bwysau i'r rhain wneud pethau'n fwy eglur wrth gategoreiddio aneddiadau yn enwedig ar gyfer aneddiadau llai a chanddynt lai o gyfleusterau na'r canolfannau mwy. Mae un agwedd ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011 yn cyfeirio at y parh mynediad i wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys naw dangosydd gyda chyfeiriad at yr amser a gymerir i gael mynediad ar fws neu drwy gerdded i'r gwasanaethau hyn. Er mwyn sicrhau cysondeb, awgrymir i'r Gwasanaethau Allweddol a nodwyd ym methodoleg yr hierarchaeth aneddiadau fod fwy neu lai yr un fath â'r 9 dangosydd a ddefnyddir yn y Mynegai Amddifadedd Lluosog (ceir newidiadau bach o ran cyfeirio at Feddygfa a Deintyddion yn hytrach nag at Feddyg Teulu a Deintydd GIG yn y dangosyddion ac i'r dosbarthiad o Nodau Cludiant ('Transport Nodes') – defnyddir diffiniad lleol, gweler y tabl isod). Felly nodir y 9 Gwasanaeth Allweddol fel:

- Deintydd;
- Siop Fwyd;
- Meddygfa;
- Canolfan Hamdden;
- Llyfrgell;
- Swyddfa Bost;
- Ysgol Gynradd;
- Ysgol Uwchradd;

- Nod Cludiant ('Transport Node').

A1.3.3 Rhoddir sgôr raddedig ar gyfer rhai gwasanaethau yn seiliedig ar faint y gwasanaeth. Byddai'r dull hwn yn caniatáu ar gyfer rhoi sgôr uwch i gyfleusterau mwy o fewn rhai canolfannau. Oherwydd yr anhawster gyda chasglu gwybodaeth ac addasrwydd categoreddio rhai gwasanaethau, ni fydd hyn yn addas ar gyfer yr holl gyfleusterau a ystyrir yn yr asesiad hwn. Bydd gan y gwasanaethau a ganlyn yn cael sgôr yn seiliedig ar eu maint:

- Amcangyfrif o Boblogaeth;
- Siop Fwyd Fawr;
- Gwasanaeth Bws;
- Gwasanaeth Trenau;
- Cyflogaeth.

A1.3.4 Ystyriwyd y dylid darparu sgôr uwch ar gyfer nifer o'r un gwasanaeth o fewn anheddiad. Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau bod amrywiaeth yn y sgôr rhwng aneddiadau a chanddynt wahanol nifer o gyfleusterau. Dylai hyn sicrhau mwy o amrywiaeth rhwng gwahanol fathau o aneddiadau i'w wneud yn haws i'w categoreddio. Bydd gan y gwasanaethau a ganlyn sgôr amrywiaeth yn seiliedig ar y nifer o'r rhain o fewn anheddiad:

- Addysg Cyn Ysgol;
- Coleg;
- Ysbyty;
- Fferyllfa;
- Optegydd;
- Neuadd Dref / Bentref;
- Sinema / Theatr;
- Man Addoli;
- Siopau Bwyd Mawr;
- Tŷ Tafarn;
- Siopau Eraill;
- Gorsaf Betrol;
- Banc / Cymdeithas Adeiladu
- Peiriant Arian Parod.

A1.3.5 O ran y mwyafrif o'r gwasanaethau allweddol a nodir ym mharagraff A1.3.2 uchod dylid lluosu eu sgôr yn ôl nifer y gwasanaethau mewn anheddiad e.e. os bydd ysgolion Cynradd yn sgorio 4 pwynt yr un yna rhoddid cyfanswm sgôr o 12 pwynt os oes 3 ysgol gynradd mewn anheddiad. Bydd sgoriau'r gwasanaethau a ganlyn yn cael eu lluosu yn ôl nifer y gwasanaethau o fewn canolfan:

- Ysgol Gynradd;
- Ysgol Uwchradd;
- Meddygfa;
- Deintydd;
- Canolfan Hamdden;
- Llyfrgell;
- Swyddfa Bost;
- Gorsaf Heddlu;
- Gorsaf Dân.

A1.4. Manylion Gwasanaethau a Aseswyd

A1.4.1 Mae'r tablau isod yn nodi'r ffynhonnell a'r dull ar gyfer casglu'r wybodaeth ynghyd â'r sgôr ar gyfer bob gwasanaeth unigol sy'n ffurfio rhan o'r fethodoleg ar gyfer ymgymryd â'r sgôr ar gyfer bob anheddiad ar wahân.

Gwasanaeth Penodol:	Amcangyfrif o'r Boblogaeth
Ffynhonnell:	Cyfrifiad 2011
Dull:	Ar gyfer yr aneddiadau mwy dewiswyd yr holl gyfeiriadau preswyl o fewn y ffin datblygu, ar gyfer aneddiadau llai dewiswyd ffin resymol o amgylch y Pentrefi / Clystyrau Gwledig. Lluoswyd nifer yr eiddo preswyl efo maint cyfartalog aelwydydd o fewn yr awdurdod unigol (Gwynedd = 2.32, Ynys Môn = 2.28).
System Sgorio:	Poblogaeth o 0 i 100 = 1pt 101 i 250 = 2pt 251 i 500 = 3pt 501 i 1,000 = 4pt 1,001 i 2,500 = 5pt 2,501 i 5,000 = 6pt 5,001+ = 7pt

Gwasanaeth Penodol:	Addysg Cyn Ysgol
Ffynhonnell:	Gwybodaeth gan Wasanaethau Addysg y ddau Awdurdod.
Dull:	Cyfrif faint o wahanol grwpiau e.e. cylchoedd chwarae, ysgolion meithrin ac ati oedd o fewn anheddiad penodol.
System Sgorio:	0 = 0pt 1 = 1pt 2 i 5 = 2pt 6+ = 3pt

Gwasanaeth Penodol:	Ysgolion Cynradd
Ffynhonnell:	Gwybodaeth gan Wasanaethau Addysg y ddau Awdurdod
Dull:	Nodi faint o ysgolion oedd o fewn aneddiadau unigol. Dim ond y rheiny o fewn 800m i ymyl yr anheddiad a ddewiswyd, golyga hyn y lleolir rhai o ysgolion yr ardal mewn ardaloedd cefn gwlad agored.
System Sgorio:	4pt ar gyfer bob ysgol.

Gwasanaeth Penodol:	Ysgolion Uwchradd
Ffynhonnell:	Gwybodaeth gan Wasanaethau Addysg y ddau Awdurdod
Dull:	Nodi faint o ysgolion oedd o fewn aneddiadau unigol. Dim ond y rheiny o fewn 800m i ymyl yr anheddiad a ddewiswyd, golyga hyn y lleolir rhai o ysgolion yr ardal mewn ardaloedd cefn gwlad agored.

System Sgorio:	5pt ar gyfer bob ysgol.
----------------	-------------------------

Gwasanaeth Penodol:	Coleg
Ffynhonnell:	Gwefannau Colegau lleol
Dull:	Nodi safleoedd sy'n cynnwys safle Coleg.
System Sgorio:	Prifysgol = 5pt Coleg Addysg Bellach = 3pt Prifysgol a Choleg Addysg Bellach = 8pt

Gwasanaeth Penodol:	Meddygfa
Ffynhonnell:	Gwefan Betsi Cadwaladr
Dull:	Nodi'r aneddiadau hynny sy'n cynnwys meddygfa hyd yn oed os nad yw ond ar agor am rhai dyddiau yn yr wythnos.
System Sgorio:	3pt ar gyfer bob meddygfa.

Gwasanaeth Penodol:	Deintydd
Ffynhonnell:	Gwefan Betsi Cadwaladr ac arolygon manwerthu lleol.
Dull:	Nodi'r holl aneddiadau a chanddynt Ddeintyddfa.
System Sgorio:	3pt ar gyfer bob Deintyddfa.

Gwasanaeth Penodol:	Ysbyty
Ffynhonnell:	Gwefan Betsi Cadwaladr
Dull:	Nodi'r holl aneddiadau sy'n cynnwys naill ai Ysbyty Cymuned neu Gyffredinol.
System Sgorio:	Ysbyty Cymuned = 3pt Ysbyty Cyffredinol = 5pt

Gwasanaeth Penodol:	Fferyllfa
Ffynhonnell:	Astudiaethau manwerthu diweddar a gwybodaeth leol o fewn y ddau awdurdod lleol
Dull:	Rhoir ystyriaeth o fewn yr asesiad hwn i fferyllfeydd sy'n rhan o siop gysylltiedig sy'n gwerthu nwyddau fferyllol yn hytrach na chyfleuster fferyllfa mewn Meddygfa.
System Sgorio:	0 = 0pt 1 = 1pt 2 i 5 = 2pt 6+ = 3pt

Gwasanaeth Penodol:	Optegydd
Ffynhonnell:	Astudiaethau manwerthu diweddar a gwybodaeth leol o fewn y ddau awdurdod lleol

Dull:	Nodi nifer yr optegwyr mewn gwahanol aneddiadau.
System Sgorio:	0 = 0pt 1 = 1pt 2 i 5 = 2pt 6+ = 3pt

Gwasanaeth Penodol:	Canolfannau Hamdden
Ffynhonnell:	Gwefannau'r Awdurdodau Lleol.
Dull:	Nodi' rheiny a restrir ar wefanau'r ddau awdurdod fel canolfannau hamdden o fewn yr ardal.
System Sgorio:	3pt ar gyfer bob Canolfan Hamdden.

Gwasanaeth Penodol:	Neuadd Dref / Bentref
Ffynhonnell:	Astudiaethau manwerthu diweddar a gwybodaeth leol o fewn y ddau awdurdod lleol.
Dull:	Lle bo gan y cyhoedd fynediad i neuadd yr ysgol leol at ddefnydd cymunedol fe gyfrifwyd hyn yn yr astudiaeth hefyd.
System Sgorio:	0 = 0pt 1 = 1pt 2 i 5 = 2pt 6+ = 3pt

Gwasanaeth Penodol:	Llyfrgell
Ffynhonnell:	Gwefannau'r Awdurdodau Lleol.
Dull:	Nodi'r rheiny a restrir ar wefanau'r ddau awdurdod fel llyfrgelloedd o fewn aneddiadau unigol.
System Sgorio:	3pt ar gyfer bob llyfrgell.

Gwasanaeth Penodol:	Sinema / Theatr
Ffynhonnell:	Gwybodaeth leol o fewn y ddau awdurdod lleol.
Dull:	Nodi aneddiadau a chanddynt sinema a/neu theatr.
System Sgorio:	0 = 0pt 1 = 1pt 2 i 5 = 2pt 6+ = 3pt

Gwasanaeth Penodol:	Man Addoli
Ffynhonnell:	Gwybodaeth ar y System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), arolygon manwerthu blaenorol a gwybodaeth leol o fewn y Cynghorau.
Dull:	Cyfrif y nifer ym mhob anheddiad unigol.
System Sgorio:	0 = 0pt 1 = 1pt 2 i 5 = 2pt

	6+ = 3pt
--	----------

Gwasanaeth Penodol:	Tai Tafarn
Ffynhonnell:	Astudiaethau manwerthu blaenorol a gwybodaeth leol o fewn y ddau awdurdod lleol.
Dull:	Cyfrif yr holl dai tafarn o fewn yr anheddiad.
System Sgorio:	0 = 0pt 1 = 1pt 2 i 5 = 2pt 6+ = 3pt

Gwasanaeth Penodol:	Swyddfa Bost
Ffynhonnell:	Gwefan swyddogol y Post Brenhinol
Dull:	Roedd yn ymwneud â chyfrif pob swyddfa bost o fewn yr ardal hyd yn oed os nad ydynt ond ar agor am rai diwrnodau yr wythnos. Cyfrifwyd gwasanaethau swyddfa bost o fewn siopau eraill hefyd.
System Sgorio:	3pt ar gyfer bob swyddfa bost.

Gwasanaeth Penodol:	Siop Nwyddau Cyfleus
Ffynhonnell:	Astudiaethau manwerthu blaenorol a gwybodaeth leol o fewn y ddau awdurdod lleol.
Dull:	Dylid rhoi 3 pt i unrhyw siop cyfleustra o fewn canolfan ond ni ddylid lluosu hyn efo nifer y siopau cyfleustra mewn anheddiad.
System Sgorio:	3pt os oes gan yr anheddiad siop cyfleustra.

Gwasanaeth Penodol:	Siop Fwyd Fawr
Ffynhonnell:	Arolygon manwerthu blaenorol, gwybodaeth o astudiaethau asesiadau effaith manwerthu ar geisiadau blaenorol a gwybodaeth leol o fewn y ddau awdurdod.
Dull:	Yn seiliedig ar siopau o dros 500 metr sgwâr.
System Sgorio:	0 = 0pt 1 = 1pt 2 i 5 = 2pt 6+ = 3pt

Gwasanaeth Penodol:	Siopau Eraill
Ffynhonnell:	Astudiaethau manwerthu blaenorol a gwybodaeth leol o fewn y ddau awdurdod lleol.
Dull:	Ni chafodd siopau y byddid yn cael eu cyfrif fel rhai mewn categori arall eu cyfrif o fewn y categori hwn e.e. siop nwyddau cyfleus, optegydd ac ati. Ystyrir prif ddefnydd uned wrth ddiffinio p'un a yw'n cael ei gategoreiddio fel siop at ddibenion yr asesiad hwn.

System Sgorio:	0 = 0pt 1 i 5 = 1pt 6 i 10 = 5pt 11+ = 10pt
----------------	------------------------------------------------------

Gwasanaeth Penodol:	Gorsaf Betrol
Ffynhonnell:	Gwybodaeth leol o fewn y ddau awdurdod.
Dull:	Nodi'r rheiny sydd mewn aneddiadau neu o fewn 800 metr i anheddiad.
System Sgorio:	0 = 0pt 1 = 1pt 2 i 5 = 2pt 6+ = 3pt

Gwasanaeth Penodol:	Gorsaf Heddlu
Ffynhonnell:	Gwybodaeth o wefan yr Heddlu.
Dull:	Nodi'r rheiny sydd o fewn aneddiadau.
System Sgorio:	1pt ar gyfer bob gorsaf heddlu.

Gwasanaeth Penodol:	Gorsaf Dân
Ffynhonnell:	Gwybodaeth o wefan y Gwasanaeth Tân.
Dull:	Nodi'r rheiny sydd o fewn aneddiadau.
System Sgorio:	1pt ar gyfer bob gorsaf dân.

Gwasanaeth Penodol:	Banc / Cymdeithas Adeiladu
Ffynhonnell:	Gwefannau banciau a chymdeithasau adeiladu yn ogystal a astudiaethau manwerthu a gwybodaeth lleol o fewn y ddau awdurdod lleol.
Dull:	Nodi'r rheiny sydd o fewn aneddiadau.
System Sgorio:	0 = 0pt 1 = 1pt 2 i 5 = 2pt 6+ = 3pt

Gwasanaeth Penodol:	Peiriant Arian Parod
Ffynhonnell:	Gwefannau banciau a chymdeithasau adeiladu.
Dull:	At ddibenion y gwaith hwn, dim ond y rheiny sydd ar gael 24 awr y dydd a aseswyd.
System Sgorio:	0 = 0pt 1 = 1pt 2 i 5 = 2pt 6+ = 3pt

Gwasanaeth Penodol:	Nod Cludiant
Ffynhonnell:	Amserlenni Rheilffordd a Bysiau lleol.
Dull:	Hwn yn dangosydd newydd a gyflwynwyd i'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a sydd yn dangos mynediad i wasanaeth trafndiaeth pellter hir. Oherwydd cysylltiadau cyfyngiedig i'r rhwydwaith rheilffordd a gwasanaeth bws cenedlaethol yn yr ardal teimlwyd buasai diffiniad lleol yn well ar gyfer cael gwell dealltwriaeth o nod trafndiaeth yn yr ardal. Ar gyfer pwrpas yr asesiad yma meant wedi cael ei diffinio fel anheddiad a chanddo naill ai: (i) Brif Lwybr Bysiau a Gorsaf Reilffordd yn yr anheddiad; neu (ii) Fwy nag un Prif Lwybr Bysiau yn pasio drwy'r anheddiad. Mae'r prif lwybr bysiau yn seiliedig ar fapiau yn amserlen bysiau Gwynedd ac Ynys Môn.
System Sgorio:	3pt os ydyw'n Nod Cludiant

Gwasanaeth Penodol:	Gwasanaeth Bws
Ffynhonnell:	Amserlenni Bws Lleol
Dull:	Cofnodwyd bob taith o ddydd Llun i ddydd Gwener i unrhyw gyfeiriad. Mae hyn yn rhoi cyfanswm nifer cyffredinol o deithiau dyddiol ar gyfer bob anheddiad.
System Sgorio:	0 = 0pt 1 i 11 = 1pt 12 i 19 = 2pt 20+ = 3pt

Gwasanaeth Penodol:	Gwasanaeth Trenau
Ffynhonnell:	Amserlen Arriva (Haf 2012)
Dull:	Cofnodwyd bob taith o ddydd Llun i ddydd Gwener i unrhyw gyfeiriad. Mae hyn yn rhoi cyfanswm nifer cyffredinol o deithiau dyddiol ar gyfer bob anheddiad a chanddo orsaf reilffordd.
System Sgorio:	0 = 0pt 1 i 11 = 1pt 12 i 19 = 2pt 20+ = 3pt

Gwasanaeth Penodol:	Cyflogaeth
Ffynhonnell:	Data Cyfrifiad 2001, Arolwg Cyflogaeth a Gwybodaeth Leol o fewn yr Awdurdod Lleol.
Dull:	Categoriwyd canolfannau yn ôl graddau cyflogaeth yn y ganolfan. Tra nad yw'n rhestr gyflawn, isod ceir y canllaw cyffredinol ar gyfer y categorieddiad hwn: Dim (D) – dim siopau neu fusnesau yn yr anheddiad. Bach (B) – dwy siop / busnesau a / neu weithle fel ysgol gynradd. Canolig (C) – 3 neu 4 o siopau gyda gweithdai a gweithle fel

	ysgol gynradd. Mawr (M) – nifer o siopau a busnesau bach gyda stad gyflogaeth fawr.
System Sgorio:	Dim (D) = 0pt Bach (B) = 2pt Canolig (C) = 5pt Mawr (M) = 10pt

ATODIAD 2 – Sgôr Gwasanaethau mewn Aneddleoedd

A.2.1 Cyflwyniad

A.2.2 Mae'r atodiad yma yn rhoi sgôr ar gyfer y gwahanol wasanaethau a cyfleusterau (cyfeirir tuag atynt fel gwasanaethau yn weddill o'r atodiad yma) sydd yn bodoli ym mhob anheddle a restrï yn yr hierarchaeth. Mae'r sgôr yn cyd-fynd efo'r dull sgorio a amlinellir yn atodiad 1.

A.2.3 Mae'r gwasanaethau wedi ei categorio fel a ganlyn:

	Gwasanaethau Allweddol
